# ECO'R WYDDFA

RHIF 23 | CHWEFROR 1978 | Pris: 10c


# Y Samariaid Trugarog

**AETH Mr. a Mrs. Hughes, Siop Bapur Deiniolen ynghyd â Mrs. Joyce Jones, Tanyfoel, Mrs. Eleri Wyn Morris, Victoria Terrace, Mrs. Marian Wyn Williams, Deiniol Road a Mrs. Rhiannon Jones, Maes Wylfa ati i godi swm go dda o arian cyn y Nadolig. I beth medde chi? Casglwyd yr arian er mwyn sicrhau fod Mark Thomas 8 oed, 35 Rhydfadog yn cael ei ddymuniad. Fel canlyniad i'r casgliad cafodd Mark, sy'n dioddef oddi wrth "spina-biffida" feic arbennig iawn. Nid oes modd i Mark ddefnyddio ei goesau – felly 'roedd yn rhaid iddo gael beic y gallai symud drwy ddefnyddio ei ddwylo –a gwireddwyd y freuddwyd.**

"Bu'r pentref i gyd yn hynod o dda," meddai Mrs. Hughes, Siop Bapur. Yn wir, mae cyfrannu at achosion fel hyn yn nodweddiadol iawn o bentref fel Deiniolen. Mae'n draddodiad yn yr ardal yma i gyfrannu tuag at rai sydd mewn angen."

Pan alwodd gohebydd yr Eco yn 35 Rhydfadog cafodd y wefr o weld y bodlonrwydd a'r hapusrwydd yng ngwyneb Mark.

Dymuna Gloria a Fred Thomas ddatgan eu diolch diffuant i'r trefnyddion ac i bentrefwyr Deiniolen. 'Rwy'n sicr fod y llun uchod o Mark yn anrheg gwerth chweil i'r cyfranwyr hefyd.



## CANOLFAN BRON YN FFAITH

Yn un o rifynnau cynharaf yr 'Eco' soniwyd mewn erthygl flaen am y bwriad i adeiladu Canolfan Amgylchedd newydd sbon ar lan Llyn Padarn yn Llanberis. Ar ol yn agos i ddeunaw mis cymharol ddistaw mae'r 'Eco' mewn safle unwaith eto i gyflwyno'r ffeithiau diweddaraf ynglyn a'r fenter – ffeithiau sy'n cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan. Dyma nhw:–

**Bydd y gwaith o adeiladu yn dechrau yn y dyfodol agos a gobeithir cwblhau erbyn canol y flwyddyn 1980. Amgueddfa Genedlaethol Cymru fydd yn gyfrifol am yr adeiladu gyda chymorth ariannol sylweddol . Bydd y BCCT yn cyfrannu swm sylweddol – tua thri chwarter y gost o adeiladu.**

Bydd y ganolfan, chwi gofiwch, fydd yn cael ei rhedeg gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn cyflawni'r tri diben o fod yn Amgueddfa Amgylchedd, yn ganolfan gwybodaeth am Eryri ac hefyd yn ganolfan Cymuned. Bydd cyfleusterau yn y rhan olaf ar gyfer chwaraeon fel codi pwysau a badminton yn ogystal a lle priodol i gynnal dramau ac i ddangos ffilmiau.

# 'FEL Y CADWER I'R OESOEDD A DDÊL....'

**YN YSTOD mis Rhagfyr gwnaethpwyd un o'r darganfyddiadau hanesyddol mwyaf y ganrif hon ar lannau Llyn Padarn gan aelodau o dim Deifwyr Gogledd Cymru. Tra'n gwneud ymchwiliadau ar wely'r llyn ar ran y BCCT daeth aelodau o'r tim ar draws darn o goedyn o faint sylweddol a ymdebygai i gwch.**

Ar ol clirio o'i gwmpas cadarnhawyd mai cwch oedd yn gorwedd ar un o'r silffoedd rhyw 60 troedfedd o lan Ynys Wylan dan y Fachwen ac mewn rhyw ddyfnder o 27 troedfedd. Darganfuwyd 1,300 o lechi ar fwrdd y cwch a daethpwyd i'r canlyniad mai un o'r cychod arbennig yna oedd hon a ddefnyddiwyd i gario llechi o Chwarel Dinorwig ar hyd Llyn Padarn i Benllyn a Chwm-y-glo.

Yn 1823 rhoddwyd terfyn ar y dull yma o gario llechi – felly mae'n rhaid i'r drylliad fod beth bynnag 150 oed, er nad oes sicrwydd i union adeg y suddo. Nid oes cofnod o'r cwch ddrylliad ar gael yn unman, ac felly ni all yr arbenigwyr ond dyfalu beth a ddigwyddodd yn union.

Gyda chymorth ariannol o'r Amgueddfa Genedlaethol ac offer o'r BCCT penderfynwyd ei symud yn ofalus o'i gwely yn Ynys yr Wylan i grogi wrth blatfform arbennig ym mae Buwch a Llo.

Profiad bythgofiadwy i ohebwyr a ffotograffydd yr *Eco* oedd llygaid dystio ar fore oer o Ionawr 1978 y broses araf o'i glanio. Symudodd y dorf a oedd wedi ymgynull ynghyd ar y lan yn nes at y dwr pan drosglwyddwyd darn ohoni i ddwylo Mr. Hugh R. Jones. Aeth Mr. Jones a'r darn yn syth i'r Amgueddfa yn y Gilfach Ddu. Gadawn ninnau i Mr. Evan Parry, ffotograffydd yr *Eco* ddweud gweddill y stori isod ac ar dudalen 11.

*Yr hen gwch ar ei ffordd o'r dyfnder.*



# GENOD NI

## AR GYFER Y CYHOEDDI

A WYDDOCH chi am ferch ifanc, dal, brydferth, tua 17–18 oed ac sy'n Gymraes dda? Y mae Pwyllgor Eisteddfod Caernarfon yn chwilio am un felly ar gyfer seremoni'r Cyhoeddi, Gorffennaf 1 eleni, a seremoniau'r Orsedd yn yr Eisteddfod ym 1979.

Gwaith y ferch ifanc fydd cyflwyno'r Flodeuged i'r Archdderwydd ac adrodd, yn ol geiriau'r cyfarwyddiadau swyddogol:

"Hybarch Archdderwydd, yn enw Morynion ein gwlad, atolwg i ti dderbyn y Flodeuged hon o dir a daear Cymru."

a hynny mewn Cymraeg croyw.

Y mae angen mam ifanc hefyd. Bydd hithau'n hardd ac yn dal ac yn osgeiddig, a'i gwaith fydd cyflwyno'r Corn Hirlas i'r Archdderwydd.

Dywedodd un o Swyddogion yr Eisteddfod y gall unrhyw un sydd a diddordeb gynnig ei gwasanaeth, a cheir manylion llawn o'r Swyddfa yn Twtil, Caernarfon. Bydd y rhestr yn cau ddydd Gwyl Ddewi ond bydd enwau yn sicr o fod wedi eu derbyn cyn hynny.

Dewch genod – beth am gynrychioli'r ardal?

# ECO'R WYDDFA

RHIF 23 CHWEFROR 1978

**Golygydd:**
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 3719*

**Is-olygydd:**
Twrog Jones,
Pros Kairon,
Glanffynnon,
Llanrug.
*Ffôn: Caernarfon 4051*

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*



GYDA DIOLCH

£3: Di-enw dros y dŵr. £1: Di-enw Caernarfon; Y Parch. H. Thomas, Llannor; Elidir Morris, Cilan, 2 The Belches, Highfield, Treffynnon; Di-enw. £2. Meurig Owen, Lewisham, Llundain; 50c: Mrs. Munro, Corby, Northants. £2: Miss E. Jones (gynt o Glan Llyn), Eryri, Trelawnyd.


*45 Maes Gwynedd,*
*Caernarfon.*

*COFIO TRIP W.I.*

*Annwyl Olygydd,*

*Ynglŷn â'r llun o ferched Llanrug yn y rhifyn Rhagfyr, Trip y W.I. ydoedd i Southport ar y 13eg o Fehefin 1936.*

*'Rwyf yn cofio ac yn adnabod y rhan fwyaf ohonynt.*

*Ar step y bws: Mrs. Storer, –; –.*

*Yn sefyll o'r chwith i'r dde: Miss Hughes, Bryn Moelyn; Mrs. Sally Thomas; Mrs. Williams, Rhosrug; – ; Mrs. Enid Williams (Crawia); Mrs. Owen, Llys Myfyr; Miss Jessie McKinnon (gynt, mae wedi priodi yn awr); Mrs. John Evans; – ; Miss Parry, Llys Dulas, – ; Mrs. Owen, Llain-y-Delyn; Mrs. Edward Jones; Mrs. W.O. Pritchard; Mrs. G.E. Pritchard; Mrs. Owen, Bryn Elan; Mrs. William Jones; Mrs. Parry, Brynrefail; Mrs. Ellis Griffiths, Mrs. Megan M. Owen; Mrs. James Jones.*

*Yn eistedd: Mrs. Humphrey Evans Mrs. Hughes, Snowdon View; Mrs. Gwilym Evans; Mrs. Jones, Minffordd; Mrs. Myfi Roberts; Miss Annie Jones; Mrs. Mem Williams.*

*Yn eistedd: ar y blaen: Miss Annie Baines Griffith; Gwilym Salisbury Owen; Mrs. Richard Evans; Mrs. Gwen Ann Williams; Mrs. J.S. Jones; Mrs. M. Pritchard.*

*Hyderaf fod fy nghof yn iawn beth bynnag.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*(Mrs.) Mary Owen.*

# LLYTHYRAU

## Y TRIP I'R FAENOL I WELD JERRY M.

*Annwyl Olygydd,*

*Parthed llythyr Dafydd Orwig. 'Rwyf yn cofio mynd yn hogyn bychan iawn yn llaw fy nhad i gyfarfod mawr o chwarelwyr yn Ffer Injian. Ni wn beth oedd diben y cyfarfod ond 'roedd llwyfan uchel wedi ei godi wrth Efail John Jones y Gof, ac 'rwyf yn cofio gweld Syr Charles – dyn mawr tew – yn sefyll arno ac yn siarad. 'Roedd cannoedd o chwarelwyr yno yn eu dillad gwaith, ac 'roedd y cyfarfod yn un hollol dawel. Ni wn beth oedd Syr Charles yn ei ddweud gan ei fod yn siarad yn Saesneg, ac mae'n debyg bod rhan fwyaf o'r chwarelwyr yn yr un cwch â minnau, ond deallais rywsut ei fod wedi dweud y buasai yn dod i gyfarfod y dynion i drafod cyflogau unrhyw amser. Cyn pen llawer wedyn gwahoddwyd y chwarelwyr i gyd i'r Faenol i de ac i weld y ceffylau ras, ac 'roedd yn ddealledig nad oedd dim i'w ddweud ynglŷn â chyflogau ac amodau gwaith yno. Mae'n debyg bod Mr. Lloyd Williams, wedi pwysleisio hyn ar y chwarelwyr.*

*Ond wrth gynnig pleidlais o ddiolchgarwch fe fanteisiwyd ar y cyfle i roi'r llythyr y soniodd Dafydd Orwig amdano, i Syr Charles. Un o'r dynion roddodd y llythyr oedd Griffith Griffiths – 'rwyf yn ei gofio yn dda yn gweithio yn yr Allt Ddu. Gwylltiodd Syr Charles yn gacwn ac aeth yn sâl. Mae'n debyg fod ei wraig wedi ceisio ymresymu ag ef oherwydd 'roedd hi yn fonedd-iges garedig iawn – ond "Charlie" oedd hi yn ei alw ac nid "George". Aeth Syr Charles ar fordaith yn ei iot yn fuan ar ôl hyn, ac ni ddychwelodd i'r Faenol wedyn. Cymerwyd ef yn sâl a bu farw.*

*Dilynwyd ef gan ei fab Robin Duff, ond lladdwyd hwnnw yn y Rhyfel ychydig fisoedd wedyn.*

*Cyfarfod oedd hwn i ddathlu trydedd fuddugoliaeth olynol ceffylau y Faenol yn y Grand National. 'Roedd Jerry M wedi ennill yn 1912, Cover Coat yn 1913, a Sumlock yn 1914. 'Roedd Choister hefyd, un arall o geffylau y Faenol, wedi ennill y Grand National ond cyn dod i feddiant y Faenol. 'Roedd Jerry M. yn geffyl nodedig iawn. 'Roedd hefyd wedi ennill ras fawr Ffrainc, yn Autenil. Mae gennyf yn fy meddiant gân o fawl iddo a gyhoeddwyd gan 'Weeks & Co., Llundain', ac a oedd yn boblogaidd iawn yn Neuaddau Miwsig y cyfnod. Mae llun Jerry M. ar y cas gyda Piggot ar ei gefn a'r geiriau 'Winner of the Grand National 1912. Top weight 12st 7lb.*

*Herbert Thomas.*



*Y llun trwy garedigrwydd Perisfab*

*Annwyl Olygydd,*

*Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at gyfarfod a gynhelir yng Nghaernarfon ar Chwefror 8 gan Fudiad Addysg Gyflawn Arfon. Gwahoddir holl aelodau'r Mudiad a phawb sydd â diddordeb yn addysg eu plant, mewn gwella cyfleusterau yn yr ysgolion ac mewn ehangu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, i ddod i'r Cyfarfod. Gellir cael mwy o wybodaeth am y cyfarfod drwy fy ffonio i (Penygroes 730 cyn 5.30 p.m.) neu Mr. Ariel Tomos (Llanwnda 830 276).*

*Dafydd Iwan*
*Ysgrifennydd*

*Tŷ Capel Mawr,*
*Llanrug.*

*Annwyl Syr,*

*Siom fawr i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg oedd deall fod Cyngor Arfon wedi penderfynu rhoi caniatâd cynllunio i godi deugain o dai ychwanegol ym mhentref Rhiwlas. Diolch i'r Cynghorwyr a'r Swyddogion hynny a frwydrodd yn galed i geisio atal y datblygiad, ac hefyd, wrth gwrs, i drigolion Rhiwlas am eu gwrthwynebiad hwythau.*

*Fis yn ôl yr oeddem fel Cymdeithas yn llongyfarch Cyngor Arfon am eu bwriad i brynu hyd at hanner cant o dai gwag ym mhentrefi Arfon, o hyn tan fis Ebrill, gyda'r bwriad o'u gosod i bobl leol. Ond y mae'r penderfyniad diweddaraf yma yn Rhiwlas yn mynd yn gwbl groes i ysbryd penderfyniad blaenorol y Cyngor, ac y mae'n anodd deall y fath anghysondeb.*

*Y mae'r dadleuon yn erbyn y datblygiad yn Rhiwlas eisoes wedi eu mynegi yn glir gan Swyddogion Cynllunio Cyngor Arfon, a'r pryder mwyaf yw y bydd y datblygiad hwn yn arwain at ddinistrio y gymdeithas Gymraeg a Chymreig sydd yn dal yn fyw ym mhentref Rhiwlas. Y mae Seisnigeiddio eisoes wedi cymryd lle gyda'r datblygiad tai presennol, ac y mae'n amlwg y bydd codi deugain a mwy o dai eto yn y pentref yn cyflymu y broses hon.*

*Prin fod galw am yr holl dai hyn yn lleol gan fod y stad newydd bresennol yn cynnwys tri thŷ haf, tri thŷ sydd wedi eu prynu gan bobl o'r tu allan i'r ardal, a dau dŷ a ddefnyddir gan fyfyrwyr. Credwn ei bod yn hanfodol bwysig fod pobl yr ardal yn parhau yn eu gwrthwynebiad i'r datblygiad hwn yn Rhiwlas, ac yn anfon at eich Cynghorydd lleol a'r Cyngor Dosbarth i fynegi ein hanfodlonrwydd.*

*Gwelwn hefyd berygl mawr yn y duedd o or-ddatblygu pentrefi megis Llanrug a Bethel ar draul pentrefi eraill yr ardal megis Deiniolen, Dinorwig, Cwm-y-glo a Brynrefail. Y canlyniad yw fod pobl yn symud i bentrefi fel Llanrug, a hyn yn arwain at ddiboblogi yn y pentrefi eraill. Y mae'r Gymdeithas wedi bod yn pwyso ar y Cynghorau i godi ychydig o dai ymhob pentref, yn hytrach na chanolbwyntio ar rai yn unig, a thrwy hyn sicrhau datblygiad cytbwys drwy holl bentrefi Arfon.*

*Apeliwn atoch i ysgrifennu at eich Cynghorydd Lleol i gefnogi polisi o'r fath, a gwahoddwn chwi drwy golofnau* **Eco'r Wyddfa** *i fynegi eich barn am ddyfodol pentrefi yr ardal.*

*Y mae'n bwysig ein bod yn sicrhau fod cynllunio cymdeithasol yn cyfrannu at barhad a ffyniant y Cymunedau Cymraeg yn ein pentrefi, ac nid yn eu dinistrio.*

*Yn gywir,*
*Ifan Roberts*
*(Cysylltwr Cell Llanrug)*


## GWAITH
**ym myd argraffu**

**Paratoi gwaith celf ar gyfer argraffu litho.**
**Gwneud a thrin negiau.**
**Paratoi platiau.**

Gellir rhoi hyfforddiant
**Ceisiadau trwy lythyr i : Gwasg Gwynedd, Nant Peris.**



## Wavell Roberts
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FRO!***
**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus**
**Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta**
**Archebion ar gyfer y rhewgist**
**MYNNWCH Y GORAU**
**A DEWCH ATOM NI!**

# DEINIOLEN

**PLAID CYMRU** – Nos Iau, Chwefror 16 am 7 pm. yn Ysgol Gwaun Gynfi – sgwrs a darluniau o wlad Llydaw – Mrs. Mary Vaughan Jones.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Dydd Llun, 5ed o Ragfyr mewn pwyllgor cyffredinol blynyddol o'r uchod gyda'r Cadeirydd Mrs. M.A. Thomas yn llywyddu a Mrs. Treen o Gaernarfon V.C.O. Etholwyd y rhai canlynol i eistedd ar y pwyllgor am 1978 – Cadeirydd: Mrs. Eirlys Williams, Pentre Helen; Is-gadeirydd: Mrs. Marian Wyn Williams, Tai Caradog; Ysgrifennydd: Mrs. Betty Williams, Tai Gweledfa; Trysorydd: Mrs. Eirlys Lloyd Jones, Pentre Helen; Ysgrifennydd y Wasg: Mrs. Marian Williams, Ffordd Deiniol ynghyd â Mrs. M.A. Thomas, Maes Gwylfa; Mrs. Beryl Hughes, Rhydfadog Miss Elenor Jones, Tai Marian, Mrs. Maureen Evans, Stryd Newydd, Mrs. Gwladys Evans, Gallt-y-Foel; Mrs. Sally Lewis, Glyn Terrace, Mrs Ethel May Roberts, Pentre Helen, Mrs. Betty Roberts , Victoria Terrace; Mrs. Jennie W. Williams, Pentre Helen. Talwyd teyrnged i Mrs. M.A. Thomas am y gwaith rhagorol y mae wedi ei wneud am dair blynedd fel Cadeirydd. Diolchwyd yn gynnes i Mrs. Treen a'r rhifyddwyr am gario allan eu gwaith mor drefnus ac mewn dull rhagorol.

Dydd Llun, 9 Ionawr llywyddwyd y cyfarfod misol gan Mrs. Eirlys Williams a rhoddodd groeso cynnes i'r gŵr gwadd, Mr. Gwilym Rowlands, 12 Pentre Helen. Cafwyd arddangosiad ardderchog o goginio safri a melysfwyd. Talwyd diolch iddo am noson fendigedig ac addysgol gan Mrs. M.A. Thomas, Maes Gwylfa.

Gwnaed y te gan Mrs. H.I. Thomas, Tai Marian a Mrs. M. Jones, Tai'r Vaynol. Enillwyd y wobr siawns gan Mrs. Betty Wyn Davies, Pentre Helen.

**MERCHED Y WAWR** – Ar 19 Rhagfyr cafwyd noson ddifyr dan ofal Miss Nellie Wyn Jones. Trefnodd raglen o 'Siôn a Siân', gyda Mr. a Mrs. John Morris, Rhiwen, a Mr. a Mrs. Hefin Jones, Llanrug yn cymryd rhan. Cawsom ganu carolau dan arweiniad Mr. Hefin Jones a rhoddodd yntau ddetholiad ar y cornet. Cymerwyd rhan gwestwraig gan Mrs. Gladys Evans. Diolchwyd iddynt gan y Llywydd, Mrs. H. Sutherland a Mrs. R. Roberts. Enillwyd y raffl gan Miss Nansi Owen. Rhoddwyd y lluniaeth gan aelodau'r pwyllgor.

Nos Lun 16 Ionawr y gŵr gwadd oedd Mr. Meurig Prytherch o Aberffraw a fu yn ein diddori gyda chanu i gyfeiliant ei gitâr. Yn absenoldeb y Llywydd arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs. Gladys Evans a thalwyd diolchiadau i Mr. Prytherch, a'r rhai canlynol oedd yn gyfrifol am y te: Mrs. N.V. Pritchard, Mrs. B.H. Williams, Mrs. Mair Morris a Miss Nansi Owen. Enillwyd y raffl gan Mrs. Gladys Evans.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Chwefror 20ed a'r siaradwr gwadd fydd Mr. Dafydd Orwig Jones.

**Y SEINDORF** – Ar Rhagfyr 17 fe gyfarfu Mr. Hugh J. Jones, Maes Gwylfa. Llyfrgellydd y Seindorf, â damwain. Mae aelodau y band a'r pwyllgor yn dymuno adferiad buan iddo.

Bydd y seindorf ar Radio Cymru VHF ar y rhaglen 'Pawb at y Peth y Bo' bnawn Mercher, Chwefror 1af.

# PENISARWAUN

**CANU CAROLAU** – Bu nifer o blant y pentref yn canu carolau tua'r gwyliau a chasglwyd y swm o £4.25½ tuag at Glwb yr Heulwen. Enwau'r Carolwyr ifainc oedd: Judith Green, Susan Trott Dilwyn Green, Dylan Williams, Diane Griffiths, Sandra Williams. Dymuna aelodau'r Clwb ddiolch yn fawr am yr arian.

**DIOLCHIADAU** – Mae diolchiadau Clwb yr Heulwen, ar eu rhan nhw ac ar ran holl bensiynwyr y pentref yn mynd i aelodau Pwyllgor y Cae Chwarae am eu rhodd iddynt tua'r gwyliau.

**GLENYS WILLIAMS** – Trem Gynfi. Brysiwch i wella Glenys, mae plant bach yr ysgol yn eich colli ar y groesffordd.

**PWYLLGOR YR EISTEDDFOD** – Mae'r pwyllgor yn falch o gyhoeddi bod y Gronfa wedi cyrraedd £140. Gobeithir cynnal Noson Cawl Cennin ddechrau mis Mawrth i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.

**CYDYMDEIMLAD** – Yr oedd yn ddrwg gennym glywed am farwolaeth Mr. Cadwaladr Roberts (Arwel gynt). Symudodd o 'Arwel' i gartref yr henoed yng Nghaernarfon, Plas Maesincla a bu farw y Sadwrn diwethaf, Ionawr 14.

Cydymdeimlir hefyd â Mr. a Mrs. Owen Thomas, Tai Newyddion ar farwolaeth chwaer Mr. Thomas yng Nghaernarfon.

**GWELLHAD BUAN** – Yr ydym yn dymuno gwellhad buan i dad Tony Elliott, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Môn ac Arfon.

**PWYLLGOR CAE CHWARAE** – Mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi ac yn falch o'r diolchiadau a dderbyniwyd oddi wrth yr henoed.

**DIOLCH** – Dymuna Anwen Jones, Meillionydd, ddiolch i berthnasau a chyfeillion am y llu o gardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**EGLWYS ST. HELEN** – Cydymdeimlir â Mrs. S.Morris, Fachell, Llanddeiniolen yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod a fu am 50 mlynedd yn Warden yn y Llan. Hefyd â theulu Mrs. N. Williams, Caernarfon sef chwaer Mr. Owen Thomas, 3 Tai Newyddion. A theulu y diweddar Mr. Belyn Roberts, Arwel gynt ac hefyd â theulu Gors Brynrefail. Fe fu y diweddar Mr. J. Ellis, Yr Allt, Brynrefail yn athro Ysgol Sul am flynyddoedd yn St. Helen.

Fe gafwyd cyfarfod Nadolig gan y plant ar Ragfyr 18. Mae ein dyled yn fawr i'r athrawon, sef Miss Gwenda Griffith a Mr. Elfyn Griffiths.

Balch ydym o gael Mr. O.C. Roberts yn ôl yn ein plith ar ôl ei waeledd.

Dymunwn yn dda i Mr. J.G. Jones, 18 Bryntirion sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mryn Seiont.

Diolch i bawb a roddodd flodau ar yr allor yn ystod y flwyddyn ac hefyd am lanhau. Fe fydd y rhestr lanhau ym mhorth yr Eglwys gyda hyn a gobeithiwn gael mwy o gynorthwywyr y flwyddyn hon.


**ECO'R WYDDFA TRWY'R POST**

*Cysylltwch â*
**Selwyn Williams,**
*(Trefnydd Gwerthiant)*
**Cartref, Stryd yr Orsaf, Llanrug.**
*Caernarfon 3577.*


# BRYNREFAIL

**CYFARFOD NADOLIG** – Nos Fercher, Rhagfyr 21ain cynhaliwyd cyfarfod yn y Festri i ddathlu'r Nadolig dan nawdd y Gobeithlu. Llywyddwyd y noson gan Mr. Islwyn Williams, Godre'r Coed. Darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur gan y Llywydd, Mrs. Rhian Jones, Mrs. Shirley Roberts a Mrs. L.P. Williams. Hwythau hefyd fu'n gyfrifol am drefnu rhaglen o garolau ac eitemau amrywiol a roddwyd gan y plant. Cafwyd cyfraniad hefyd gan yr ieuenctid, sef Misses Alice Walton, Mair Evans a Marian Evans. Ar derfyn y cyfarfod derbyniodd pob plentyn anrheg oddi ar y goeden Nadolig gan Santa. Mynegwyd gair o ddiolchgarwch gan Mrs. Pat Jones a chanwyd carol i gloi'r noson gan barti o famau'r plant. Dymuna swyddogion y Gobeithlu ddiolch yn gynnes iawn am ymateb ariannol anrhydeddus y pentrefwyr pan oeddynt o amgylch yr ardal yn canu carolau.

**CLWB DEG A DEUGAIN** – Mewn Cyfarfod Blynyddol o'r Clwb nos Fercher, Ionawr 11eg, ail-etholwyd y pwyllgor presennol o bump ynghyd â Mrs. Audrey Roberts. O dan nawdd y Clwb ar Ragfyr 26ain cafwyd taith gerdded lwyddiannus. Trefnir noson adloniadol nos Sadwrn, Chwefror 11eg yng Nghwesty Victoria, Llanberis i ddathlu Gŵyl Sant Ffolant. Derbynnir enwau gan yr ysgrifenyddes. Enillwyr 10.12.77–1. Eifion Roberts, 8 Trem Eilian; 2. Bertie Roberts, Llwyncoed Bach; 3. Edfryn Jones, Ty'n Twll. 17.12.77 – 1. Dilys Evans, Min-y-don; 2. Ken Jones, Cae Coch; 3. John O. Jones, Glandwr. 24.12.77 – 1. Dewi – 9 Trem Eilian; 2. Hugh Walton, Rhydau Duon; 3, Owen Roberts, Llwyn Helyg. 31.12.77 – 1. Glyn Williams, Caernarfon; 2. Sheila Williams, Brynhyfryd; 3. Ada Jones, Ty'n Twll. 7.1.78 – 1. Brian Jones, 11 Trem Eilian; 2. Sheila Roberts, Llwyn Helyg; 3. Maldwyn Jones, 1 Tai Orwig. 14.1.78 – 1. Carol Houston, 2 Trem Eilian; 2. Jennie Roberts, Glandwr; 3. Arthur Jones, 5 Trem Eilian.

**CYMDEITHAS LENYDDOL** – Nos Iau, Ionawr 5ed gwahoddwyd Miss Mat Pritchard, Caernarfon i ddarlithio ar 'Hen Gymeriadau'. Treuliwyd noson addysgiadol a diddan yn gwrando ar ymdriniaeth gelfydd ar gymeriadau'r Parchedigion Robert Ellis, Ysgoldy a Robert Jones, Llanllyfni. Diolchwyd yn wresog i Miss Pritchard gan Mr. Maurice Jones, Meillionen. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mrs. J. Roberts, Glandŵr a Mr. D.G. Ellis, Gweledfa. Enillwyd y wobr gan Mr. J.O. Jones. Disgwyliwn Mr. H. Lloyd Owen i'r cyfarfod nesaf ar Chwefror 2il.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Nos Wener, Rhagfyr 16eg, cafwyd swper blynyddol y sefydliad yng Ngwesty Gallt-y-Glyn, Llanberis. Nos Iau, Ionawr 19eg, croesawyd Mrs. Treen o Gaernarfon i'n cyfarfod i drafod dyfodol y gangen gan fod rhif yr aelodau yn bur isel. 'Roedd lluniaeth yng ngofal Mrs. G. Jones a Mrs. H.J. Jones.

**CLWB Y MAMAU** – Nos Iau, Ionawr 12ed croesawyd Mr. Hugh Walton i'r Clwb i drafod ei waith yn Rhydau Duon. Darparwyd y te gan Mrs. Audrey Roberts a Mrs. Shirley Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Carol Houston ac fe'i henillwyd gan Mrs. Pat Jones.

**CLWB YR HENOED** – Ym mis Rhagfyr cafodd yr henoed eu swper Nadolig yng Ngwesty Dôl Badarn, Llanberis. Ar ddiwedd y cinio cafwyd chwaraeon dan ofal Mrs. Pat Jones, Cae Coch.

Trefnwyd y noson gan Mrs. Eifiona Jones, Bron Eryri a dymuna'r pwyllgor ddiolch iddi.

**PROFEDIGAETHAU** – Daeth Gŵyl y Nadolig eleni â chysgod o dristwch anarferol i'r pentref gan i dri theulu fod mewn profedigaeth o golli anwyliaid. Trallod o'r mwyaf fu ymadawiad Mrs. Gwyneth Griffith, Goleufryn, Llanrug o'n plith ym mlodau ei dyddiau a'r un modd Mr. Neville Roberts, Creigle yn frawychus o sydyn ar drothwy'r Ŵyl. Ddeuddydd wedi'r Nadolig collodd y pentref un o'i chymeriadau hoffusaf ym marwolaeth Mr. John Ellis, Penrallt, ef wedi cyrraedd oedran teg. Mae ein cydymdeimlad yn ddwfn iawn â'r teuluoedd yn eu galar: Mrs. Eifiona Jones, Bron Eryri; Mrs. Jennie Roberts, Creigle; Mr. George Ellis, Penrallt a'r cysylltiadau teuluaidd oll.

*Meeuwen laan 19*
*Leiderdorp*
*Iseldiroedd*

*Annwyl Olygydd,*

*Dyma fi, Enid o Cwm yn byw yn yr Iseldiroedd ers saith mlynedd-ar-hugain. Os bydd gennych rhyw gornel fach a fuasech mor garedig â dymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' i bawb o'r ardal.*

*Rhaid i mi gael dweud cymaint yr wyf yn mwynhau darllen yr* Eco.

*Yn gywir,*
*Enid Hoffman (Parry)*


**AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO ...............**

*Eric Morris*



**Bwsiau Arfon LLANRUG**

**FFÔN WAUNFAWR 254**

# LLANRUG

**ENNILL GRADD** — Llongyfarchiadau cynnes i John Owen Ellis, unig fab Mr. a Mrs. G.E. Ellis, Treflan ar dderbyn y radd o Ph.D. gan Brifysgol Cymru. Addysgwyd Dr. Ellis yn Ysgol Gynradd ac Ysgol Brynrefail, Llanrug a Choleg y Brifysgol, Bangor lle y graddiodd gydag anrhydedd mewn Ffiseg. Y mae'n awr yn wyddonydd yn Atomfa Niwcliar Windscale, Cumbria.

**CYMDEITHAS LENYDDOL** (Capel Mawr) — Dechreuodd y Gymdeithas y flwyddyn newydd yn ol ei harfer gyda chyfarfod gweddi'r bobl ieuanc. Cymerwyd rhan gan Gwyn Thomas, Einir Owen, Ellen MacKinnon, Iola Jones, Richard Elis Owen, Caron Owen, Myfanwy Jones, Elidir Owen, Gwen Oliver Jones, David Horman, Anwen Jones, Catrin Roberts, Wendy Roberts, Helena Parry, Sharon Thomas a Gwenda Jones. Llywyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts a chyfeiliwyd gan Mrs. Mair Jones, Ogwen.

Nos Iau, Ionawr 12fed treuliwyd noson ddifyr wedi ei threfnu gan Mr. a Mrs. Arwel Jones, Gwên-y-Wawr; Mr. a Mrs. Ian Pierce, Swyn-yr-Awel; Mr. a Mrs. Ifan Roberts, Tŷ Capel; Miss Beryl Wyn Jones, Ogwen a Mr. David Horman, Venice. Llywyddwyd gan Mr. Arwel Jones. Diolchwyd am noson i'w chofio gan y Parch. W.O. Roberts a chefnogwyd y diolch gan Mrs. Eluned Elis Owen, Bryn Maen. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 26ain o dan arweiniad Mr. Ieuan Elis Owen, Ll.B., Y Ffôr.

**Y GOBEITHLU** — Dechreuwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd trwy ddefosiwn gan Olwen Meredydd Jones, Gwên-y-Wawr a Susan Wheldon Morris, Gwenmon. Dangoswyd ffilmiau ar ddamhegion yr Arglwydd Iesu Grist gan Mrs. W.O. Roberts. 'Roedd y taflunydd yng ngofal Mr. John Williams, Gweledfa.

Dechreuwyd yr ail gyfarfod trwy ddefosiwn gan Nia Wyn Jones, Y Wern. Cymerwyd rhan mewn canu gan Anwen Parry, Lynette Evans, Meinir Williams, Michelle Jones, Mandy Williams, Sandra McGuiness, Amanda McGuiness, Paula Evans, Gwawr Davies, Susan Jones, Wendy Jones, Petula Williams, Christine Jordan, Karen Lewis, Anwen Davies, Janet Evans a Wyn Parry. Dysgwyd caneuon o'r detholiad. Cyfeiliwyd gan Mrs. Mair Jones, Ogwen a llywyddwyd gan Mrs. W.O. Roberts, Annedd Wen.

**MERCHED Y WAWR** — Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr. Huw John Hughes, Dirprwy Brifathro Ysgol Penybryn, Bethesda. Dangosodd sleidiau o adar, gloynnod byw a gwyfynod. 'Roedd ei sgwrs yn ddiddorol iawn ac fe ddysgwyd llawer. Diolchwyd iddo gan Mrs. N. Lovatt.

**GWASANAETHAU'R NADOLIG** — Cafwyd gwasanaethau teilwng iawn o Ŵyl y Nadolig yn Eglwys Sant Mihangel. Yr oedd y Gwasanaeth Hanner Nos ar noswyl y Nadolig yn llwyddiant a bu gwasanaeth plant ardderchog ar ddydd cyntaf y Flwyddyn Newydd a Gwasanaeth Carolau llewyrchus dros ben yn yr hwyr. Y Rheithor oedd yn arwain y gwasanaethau i gyd a chymerwyd rhan yng ngwasanaeth y plant gan y rhan fwyaf o blant yr Ysgol Sul.

**TÂN** — Drwg gennym fel ardalwyr am y tân a fu yn nhŷ Mrs. Mabel Owen, 5 Glanmoelyn pan ddinistriwyd y rhan fwyaf o'r ystafelloedd ar y llawr. Da yw deall nad anafwyd Mrs. Owen ond aed â hi i'r ysbyty ym Mangor yn dioddef o sioc ac effeithiau mwg. Da gennym ddweud ei bod cystal â'r disgwyliad ac anfonwn ein cofion ati.

**CLWB BLODAU'R GRUG** — Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn ddiweddar ac etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd: Y Parch. D. Gwynfor Williams; Is-gadeirydd: Mr. Jones Evans; Ysgrifennydd: Miss Dilys Jenkins; Trysorydd: Mrs. Williams, Tremallt. Penderfynwyd yn y dyfodol i beidio a chynnal cyfarfodydd yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror, felly fe fydd y cyfarfod nesaf ar yr ail ddydd Iau ym mis Mawrth.

**UNDEB Y MAMAU** — Aeth aelodau Undeb y Mamau Llanrug a Chwm-y-glo ynghyd â'u cyfeillion i fwynhau eu parti blynyddol ym Mhlas Tan Dinas. Cafwyd gwledd ardderchog ac adloniant wedi ei drefnu gan rai o'r aelodau. Mwynhaodd pawb eu hunain.

**O'R YSBYTY** — Croeso adref i Mr. Tom Griffith, Bryn Alaw a Mr. W.O. Griffith, Treflys. Deallwn eu bod yn gwella'n foddhaol a dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt.

**DIOLCH** — i Mrs. Dilys Mai Hughes am werthu'r Eco yng Nghlanmoelyn. Mae Mr. a Mrs. Hughes a'r plant wedi symud i fyw i Dŷ Capel, Preswylfa, Llanberis. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd.

**DWY GOLLED** — Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth Mrs. Gwyneth Griffith, Goleufryn a Mr. Harold Williams, Elan Wen. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r ddau deulu yn eu galar.

**NEWYDDION Y SEINDORF** — Cafodd y plant eu parti Nadolig gan aelodau'r Seindorf a'r Pwyllgorau. Trefnwyd y chwaraeon gan Mrs. M. Jones Ogwen, Mrs. Vera Williams, Awelon a Mr. McNall Pen Llel. Diolchwyd i bawb gan Mrs. Myfi Roberts. Bu'r Seindorf yn canu carolau o gwmpas yr ardal ac o amgylch y goeden Nadolig yng Nghaeathro.

Dydd Calan, buont yn canu o gwmpas yr ardal eto i ddangos eu gwerthfawrogiad i'r ymateb haelionus a gafwyd i Apêl Cronfa'r Offerynnau.

Ar hyn o bryd maent yn paratoi ar gyfer dwy gystadleuaeth un yn Bolton ar Chwefror 19 a'r llall yn Prestatyn ar y 24ain o Fawrth. Pob llwyddiant iddynt.

**CRONFA RIGARUG** — Cynhelir Disco Dwynwen yng Nghwesty Victoria, Llanberis nos Sadwrn, Ionawr 28ain. Mae'r ticedi ar gael gan Dafydd W. Thomas, Bron-y-Nant. Pris £1.75 (sy'n cynnwys cyw iâr mewn basged). Trefnir bws.

Mae £550 wedi ei drosglwyddo i'r Eisteddfod yn barod.

Mae platiau arbennig wedi eu peintio â llaw yn cael eu paratoi (limited edition). Archeb ac arian i'r Ysgrifennydd neu'r Trysorydd. Ceir mwy o wybodaeth yn fuan.


**Y GYMDEITHAS UNDEBOL** — Nos Fawrth y 17eg cafwyd sgwrs gan Mr. R. Derfel Gruffydd, Prifathro'r Ysgol Gynradd. Ei destun oedd 'O Fethesda i Lanrug'. Diolchwyd iddo gan Mrs. M. Lloyd Williams. Y Llywydd oedd Mr. W.A. Jones, Y Dalar Deg.

# BETWS GARMON

**GWAELEDD** — Bu cryn gwyno yn y pentref ers y Nadolig. Dymunir adferiad llwyr a buan i Mrs. Glenys Williams, Ty'n y Weirglodd; Mrs. Griffith, Caeau Gwynion a Mr. Amos Jones, Bryn Afon.

**DAMWAIN** — Drwg iawn oedd clywed am anffawd Miss C. Williams, Tan y Marian ychydig cyn y Nadolig pan gipiwyd hi i Ysbyty Môn ac Arfon. Ond erbyn hyn da yw deall ei bod yn gwella ac wedi ei symud i Ysbyty Minffordd, Bangor.

# DAL I BWFFIAN



*Maid Marian ym Mhentre Piod wrth Lyn y Bala 1975.*

**Yn ystod mis Mawrth 1975 ar ôl cael ei thrin a gosod caban ar ei phen symudwyd y "Maid Marian" o'r Gilfach Ddu yn Chwarel Dinorwig i lannau Llyn Tegid y Bala. O fod yn weithrag ddiwyd yn y Chwarel yn cario llechi am flynyddoedd mae'n awr yr un mor ddiwyd yn tynnu 4 coets yn cynnwys 150 o bobl. Mae wedi ymgartrefu yn awr yn Llanuwchllyn, ac yn galondid mae'n bur debyg i nifer fawr o gyn-chwarelwyr o feddwl fod yr hen beiriant bach yn cael ei defnyddio o hyd.**

Ym mis Hydref o'r flwyddyn hon bydd y "Maid Marian" yn 75 oed a gobaith swyddogion y "Maid Marian Locomotive Fund" yw y gellir casglu lluniau i gofio gwahanol gyfnodau o hanes y peiriant. Dywedodd Mr. Douglas C. Carrington, un o sefydlwyr y Gronfa, "Mae lluniau o'r peiriant cyn 1930 yn hynod o brin." Gobeithia Mr. Carrington y bydd yr erthygl hon a'r apêl sydd ynddi yn cyrraedd cyfeillion sydd yn berchnogion y lluniau prin yma, neu unrhyw lun arall o'r "Maid Marian". Byddant hefyd yn falch o unrhyw wybodaeth am unrhyw un o'r llu peiriannau eraill fu'n gweithio yn Chwarel Dinorwig. Maent eisoes, drwy *Eco'r Wyddfa*, wedi gallu cysylltu â rhai pobl."

Cymerodd Mr. Carrington ddiddordeb mawr yn y peiriannau hyn ac mae wedi cyhoeddi llyfryn cynhwysfawr iawn arnynt. Pwysleisia Mr. Carrington y bydd y lluniau yn gwbl ddiogel tra yn ei feddiant ac y telir costau i unrhyw un all yrru rhain iddo trwy'r post.

Gyrrwch eich lluniau, erthyglau ac ati i:

Mr. Douglas Carrington,
223 Sunnybank Road,
UNSWORTH, Bury, Lancs.
neu i Olygydd Eco'r Wyddfa,
Gwên-y-Wawr, Llanrug.

# TAN-Y-COED

**CYDYMDEIMLAD** — Y mae cydymdeimlad yr ardal â theulu Cartref. Tair Trefor yn eu profedigaeth ddiweddar. Collodd Miss Nance Williams, Mr. Jack ac Ifor Williams frawd annwyl, a Mr. Michael Williams ewythr hoff, pan fu farw y diweddar Mr. Harold Williams, Elan Wen, Llanrug. Derbynied y teulu oll ein cydymdeimlad.

**DRAMA'R NADOLIG** — Perfformiwyd Ddrama Nadolig o waith eu gweinidog, y Parch. W.O. Roberts gan blant Ysgol Sul Tan-y-Coed pnawn Sul, Rhagfyr 18fed. Daeth cynulliad da o rieni a pherthnasau'r plant ynghyd.

Mwynhawyd gyrfaniad y plant, a chyfraniad Mrs. Megan Williams.

**CYFARFOD GWEDDI** — Nos Fawrth Ionawr 3ydd cafwyd Cyfarfod Gweddi gan bobl ieuainc eglwys Tan-y-Coed, a nos Iau, Ionawr 5ed trefnwyd Cyfarfod Gweddi Undebol yn Nhan-y-Coed, o dan nawdd Eglwys y Plwyf, a chapeli'r ardal, y Rheithor, y Parch. Gwynfor Williams yn arwain.


**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol



**FFÔN**
**CAERNARFON 2898**

# SIBRYDION O'R YSGOLION



Rhai o blant Ysgol Feithrin, Llanberis yn mwynhau Parti Nadolig yn y Ganolfan Gymdeithasol yng nghwmni Siôn Corn.
*(Mae croeso i fwy o blant fynd i'r Ysgol Feithrin. Cynhelir yr ysgol bob bore dydd Mawrth a Iau o 9.30 hyd 11.30).*

### YSGOL DOLBADARN

Llongyfarchiadau i hogia Ysgol Dolbadarn ar ennill un o'r rowndiau cyntaf cystadleuaeth yr Urdd 5 bob ochr yn erbyn Ysgol Hirael Bangor. Y sgôr oedd Llanberis 8, Hirael 5.

Bu'r genethod yr un mor llwyddiannus yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd. Enillodd y genod 9–8 yn erbyn Ysgol Llanllyfni.

### YSGOL GYNRADD PENISARWAUN

**Daeth Mr. Gwyndaf Jones, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, i'r ysgol i ddangos ffilmiau yn ymwneud a Diogelwch i blant adran yr Urdd. Hefyd fe gafodd plant Dosbarth y Babanod gwmni Emyr yr Emu, ac 'roedd yntau yn pwysleisio'r angen am ofal wrth groesi'r lôn.**



*Nest Lewis Jones, Bethel ac Anwen Jones, Penisarwaun yn cynorthwyo rhai o'r plant i fwyta yn y parti.*

### YSGOL BRYNREFAIL PARTI NADOLIG ARBENNIG

Eleni eto, trefnwyd parti i blant o dan anfantais Ysgol Pendalar, Caernarfon, yn Ysgol Brynrefail. Bu'r chweched dosbarth yn trefnu discos yn ystod y flwyddyn er mwyn casglu arian i dalu am y parti, a chynhaliwyd ef prynhawn Gwener, Rhagfyr 16.

Mwynhawyd y parti gan bob un o'r plant a chawsant eu difyrru wrth chwarae gemau, canu a'r gitâr, a dawnsio. Ar ôl y bwyd bu Siôn Corn yn garedig iawn a dod â rhoddion iddynt.

Fel canlyniad i'r parti cafodd y chweched dosbarth wahoddiad i barti a chyngerdd plant Ysgol Pendalar yng Nghaernarfon ddydd Mawrth, Rhagfyr 20ed. Derbyniodd rhai o'r disgyblion y gwahoddiad a mwynhawyd yr adloniant yn fawr iawn.

### GWASANAETH CAROLAU

Nos Lun, Rhagfyr 19, cynhaliwyd gwasanaeth carolau yn yr Ysgol. Cafwyd rhaglen amrywiol eleni eto ac offrymwyd y weddi ar y dechrau a'r fendith ar y diwedd gan y Parchedig W.O. Roberts, Llanrug.

### DISCOS NADOLIG

Bu'r dyddiau diwethaf yn yr ysgol cyn y Nadolig yn ddyddiau prysur a chynhyrfus iawn.

Cynhaliwyd disco i'r dosbarthiadau isaf (dosbarthiadau 2 a 3), prynhawn dydd Iau, Rhagfyr 15, ac yn y nos disco i'r dosbarthiadau uchaf (4ydd, 5ed a 6ed). Yna prynhawn dydd Gwener, Rhagfyr 16, cynhaliwyd disco i ddosbarthiadau'r flwyddyn gyntaf.

*Swyddfa'r Urdd,*
*Aberystwyth.*

*Annwyl Olygydd,*

*Byddwn yn dra diolchgar am ofod i atgoffa Arweinyddion Adrannau ac Aelwydydd Urdd Gobaith Cymru fod yn rhaid iddynt gofrestru eu haelodau* **erbyn 31 Ionawr** *os ydynt am gystadlu mewn Eisteddfod Gylch, Dosbarth neu Sir.*

*Penderfynodd Cyngor yr Urdd weithredu'r rheol hon yn gaeth eleni ac 'rydym am i Arweinyddion sylweddoli hyn mewn digon o bryd. Dim ond trwy gofrestru erbyn y dyddiad penodedig y gellir osgoi siomi eisteddfodwyr ifanc yr Urdd.*

*Pwysleisiwn ymhellach y rhoddir blaenoriaeth i aelodau a gofrestrwyd erbyn 31 Ionawr wrth dderbyn ceisiadau wythnosau'r haf yng Nghanolfannau Llangrannog a Glan-llyn.*

*Yn gywir,*
*J. Cyril Hughes*
*Cyfarwyddwr*


AR WERTH

DAU WELY (plant); 2 droedfedd 6 modfedd o led. Llanberis 533.



W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG


PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

BP heat
A SHELL-MEX

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.





GWASANAETH GLANHAU
DIWYDIANNOL AC YN Y CARTREF
Carpedi, lloriau teils,
seti defnydd a vinyl –
unrhyw beth!

M & G PARRY

6 STRYD MORGAN, GERLAN

Os cawn ni fod dan draed am gyfnod,
Bydd y glendid dan draed yn hynod.



CYNGOR SIR GWYNEDD COUNTY COUNCIL

ADRAN ADDYSG
YSGOL GYNRADD LLANRUG

Yn eisiau –

(i) GLANHAWRAIG/GLANHAWR A GOFAL (Rhan Amser) 24 o oriau yr wythnos ar hyn o bryd. Cyflog presennol 102.38c yr awr (£24.57c yr wythnos) ynghyd ag ychwanegiad o £3 yr wythnos ar gyfer costau byw

(ii) GLANHAWRAIG/GLANHAWR RHAN AMSER – 10 awr yr wythnos. Cyflog presennol 93.5c yr awr (£9.35 yr wythnos) ynghyd â £1.25 o ychwanegiad ar gyfer costau byw

Bydd y ddau benodiad yn ddarostyngedig i dderbyn adroddiad meddygol boddhaol. Ffurflenni cais am y ddwy swydd a manylion i'w cael gan Mr. Derfel Griffith, Pennaeth, Ysgol Gynradd, Llanrug.

Dylid dychwelyd y ffurflen i'r Pennaeth yn yr ysgol erbyn 9ed Chwefror, 1978 fan bellaf

Tecwyn Ellis
CYFARWYDDWR ADDYSG

**DYMUNIADAU GORAU I JOHN CLOSS, LLANBERIS AR EI YMADAWIAD I AWSTRALIA**
**Awst 1964 a 1977**

I lygaid llawer cyfaill
Daw deigryn yn ddios
Wrth ysgwyd llaw a rhoddi
Ffarwêl i'r hen John Closs;
Ffarwelio mae â Chymru,
A throed yr Wyddfa fawr;
Mae'n hwylio am Awstralia,
Gwyn fyd y llanc yn awr.

Fel cneifiwr yn ein cymoedd
Ni fedrwn gael ei well,
Ac os am weld ei debyg
Yn wir rhaid mynd ymhell,
Un cyflym, cywrain, medrus,
Ac ystwyth iawn ei law,
Ac am bob un â gwellaif
Fe gneifia wyth neu naw.

Bu o a'i gyfaill Emrys
Ac eraill dyna'r ffaith,
Drwy gyfrwng peiriant trydan
Yn ddygyn gyda'r gwaith,
Am dano fe a'i ffrindiau
Yn fynych clywir sôn,
'Run graen ar ddafad fynydd
Â defaid mawr sir Fôn.

Ond bellach morio allan
I'r Ynys bell bydd John,
Nid dyma y tro cyntaf
I'r llanc fynd dros y don, –
Ymwelodd â 'Newzeland',
'Rwy'n amau fod rhyw ferch
Yn denu John yn gyfrwys
Dros fôr at allor serch.

Parhau i gneifio'r defaid
Ymhell dros donnau'r lli,
Yn nhegwch haf a'i hirddydd,
Osgoi ein gaeaf ni.
Bydd eira yn Llanberis
A John yng nghanol haf
Dan lesni y ffurfafen
Bydd yn torheulo'n braf.

Ymhell ar dir Awstralia
Boed iti bob mwynhad
Ond paid ag aros yno
Tyrd adre i'r Hen Wlad,
Tyrd yma'n ôl i gneifio
I Ynys Fôn a Llŷn
I'r ffermydd yn Eryri,
Cei groeso ymhob un.

Wel bendith arnat gyfaill
Ar gychwyn mordaith hir,
Bydd llawer gwawr a machlud
Cyn daw y llong i dir;
Ac yn y fro fynyddig
Yn Arfon heb ddim os
Bydd llu o ffrindiau'n meddwl,
A holi am John Closs.

*T.H. Williams*
*Garreg Fawr*
*Waunfawr*



*Dyma lun John ym mhriodas ei frawd Twm tua 15 mlynedd yn ôl. Mae'r llun hwn wedi ei grafu ar lechen ym mhentan Bont Meibion, Nant Peris ers hynny. Mae'r llun yn aros o hyd. Elfed Thomas oedd yr artist!*

## TEWCH Â DEUD

7, Oxley Links Road,
Oxley,
Wolverhampton.

BEIRDD AR BEN WYDDFA

Yn *Eco'r Wyddfa* y mis diwethaf mae hanes ras o Lanberis i ben yr Wyddfa – ac yn ôl. Wn i ddim a fyddai hanes grŵp o feirdd o Eisteddfod Gaernarfon 1862 yn mynd i fyny'r Wyddfa i weld yr haul yn codi o ddiddordeb i'r darllenwyr ai peidio? Dyma'r hanes:

Y mae rhywbeth cysegredig yn enw Eryri – cysegredig gan ddagrau gwaed a llwch ein cyndadau yr hyn a aberthasant ar allor rhyddid eu gwlad. Yma y diffoddodd gwreichion olaf ein hannibyniaeth genedlaethol ac y gorfodwyd gweddill y fyddin Gymreig i ddyfod i delerau heddwch â brenin byddin luosocach y Saeson. Pan fyddent yn anffodus yn yr iseldiroedd, troent eu hwynebau tuag Eryri, ac yn ei nentydd anghysbell a'i chreigiau anhygyrch hi, dyrnaid ohonynt a herient holl gynddaredd eu gelynion afrifed. Bu y mynyddoedd hyn yn garedig iawn wrth ein cyndadau ymlidiedig.

Y BEIRDD O EISTEDDFOD CAERNARFON YN CYFARFOD AR BEN YR WYDDFA NOS IAU A NOS WENER, AWST 28ain a 29ain 1862 AC YN DISGRIFIO YR HARDDWCH.

O! fy Nuw! y gwynfydedd oedd yn lladrata dros y meddwl, ac yn dwyn y serchiadau i wylo mewn addoliant. Soniwch am eich gorwych demlau, a'r "Dim religious lights" sydd yn cynorthwyo i gynyrchu duwiolfrydedd yn yr addolydd! Gwegi oll! Dyma'r deml, dyma'r adeg; dyma'r addoliant. Ewch â'r adyn mwyaf anffyddiog, y cablwr mwyaf dirweddi i ben yr Wyddfa, ac os na ddaw i lawr yn addolydd – nid oes un gyfundrefn o foddion a all byth ei achub! Yr unig beth a allasai 'chwanegu a dyfnhau y teimlad yr oedd y golygfeydd hyn yn ei gynhyrchu, fuasai bod yno mewn unigedd, heb neb ond y deml a Duw yn bresennol. Yr Hollgyfoethog Dduw wedi ymwneud i'w darsynnu â dilyw diderfyn ei oludoedd, dacw'r nefoedd oll yn cael ei bedyddio yn y môr. O, brydferthwch annarlunadwy oedd ger ein bron. Gwir mawr a ddywedodd y bardd "An underaut astronomer is mad"

Chwareuwyd ar y delyn gan apostol y Delyn Gymreig Mr. Llywelyn Williams a chanwyd yn galonnog gan y dyrfa addolgar "Codiad yr Haul" ac oddi ar pan agorodd ei erynt chwerthingar yn Eden, nid ydym yn credu iddo gael ei roesawiad mwy calonnog ac addolgar nag a gafodd gan Feirdd Eisteddfod Caernarfon ar Ben Yr Wyddfa y bore hwn!

CYNHALIWYD EISTEDDFOD AR BEN YR WYDDFA GAN Y BEIRDD A CLWYDFARDD YN BEIRNIADAU YR ENGLYNION

Dyma un o'r englynion:

Wele yr haul angel eurwedd – yn dod
Mewn didwyll ogonedd,
Yn llon i gyhoeddi hedd
Ei frenin i fro Wynedd.

Cawsant ei ysbrydoli wrth edrych ar Aberglaslyn, Beddgelert, Gantre'r Gwaelod, Gwyddno Garawhir, Sarn Badrig, Dugoed Sir Feirionnydd, Cader Idris, Garnedd y Filicast, Cwm Dyli, Foelydd Hebog, Siabod a'r Gest a mynyddoedd Plumlumon, Aran Fawddwy, Arennig a'r Berwyn, garneddau Dafydd a Llewelyn: y rhai oll oeddynt yn weledig fore Awst 28ain 1862 oddi ar ben yr Wyddfa. Yr oedd pob enw yn gyfoethog o ddeithi hanesyddol a phob llecyn yn meddu ei draddodiadau o farddoniaeth ddysgrifiadol yn ymrithio ger bron y meddwl fel ysbrydion gwasganaethgar. Wrth syllu ar yr wyth llyn ar hugain fel llafnau o wydr tryloyw oddi tanom rhedai i'n cof englyn Gwilym Cowlyd:

"Y llynnau gwyrddion llonydd – a gysgant
Mewn gwasgod o foelydd
A thy n heulwen ysblennydd
Ar lan y dŵr, lun y dydd."

O'r iseldir islaw clywom:

"Ar i waered i'r Werydd – naturiol
Oratorio'r nentydd".

Ieuan Dogoed

Ac wrth adael copa iach yr Wyddfa uchel ymgrynhoai ein dymuniad i eiriau yr un bardd:


"Byw yng ngwylltineb anian O! na chawn
Er hir chwennych weithian
Rian lwys a chornel lân
O fynydd i fy hunan."

Yr eiddoch yn gywir,
Betty Roberts
neu
Betty Jones gynt
o Gwm-y-Glo
ers 37 o flynyddoedd.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


**R.Hughes Jones a'r Mab**


The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus – prisiau rhesymol



**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo**



Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

# TWLL CEFN DU 1926



*Y CHWARELWYR OEDD YN GWEITHIO YN Y TWLL YN CEFN DU, 1926*
*Y Rhes Uchaf: O. Jones; H.R. Owen; J.I. Evans; R.E. Griffiths; R. Owen; J.A. Jones; J. Trevor; J.E. Jones; H.H. Jones; J.R. Hughes.*
*Y Drydedd Res: G. Jones; John Hughes; R.G. Evans; Evan W. Jones; H. Williams; I. Griffiths; J.W. Jones.*
*Yr Ail Res: Hugh Thomas; O. Edwards; E.G. Jones; William Hughes; D.J. Owen; W.R. Griffiths; M.B. Williams.*
*Y Rhes Flaen: R.R. Evans; G.J. Williams; R. Evans; C. Griffiths.*
*Dyma'r llun olaf a dynnwyd o chwarelwyr Cefn Du cyn iddi gau yn 1928.*



*Yng Nghefn Du y mae'r beicwyr modur – nid yn yr Isle of Man – yn yr un flwyddyn. O'r chwith i'r dde: William Hughes, Gwastadfaes; Wil Price, Groeslon; William Evans Go, Yr Ala; Dafydd Glyn Jones, Glyn Garth; David Griffith, Ael-y-bryn; Dafydd Morris, Eilian Terrace; Wil Lloyd, Gwastadfaes.*

# Teulu'r Philipiaid

**Agor Ffiniau'r Gorffennol – Hydref 1977 'Eco'r Wyddfa'**

**Sonnir am deulu'r Philipiaid – y "Cantorion, Cerddorion a'r Arweinyddion".**

Brodor o Fôn oedd Thomas Phillips, "Stamps", Llanberis. Fe'i ganed yn 1812 a bu farw ar yr 28ain o Dachwedd 1871. 'Roedd iddo dri o feibion – Thomas, Robert a Griffith.

Priododd Thomas Phillips â Mary Thomas, merch William ac Ann Thomas, Pen y Gaer, Llanddeiniolen.

Ganed dau fab i Thomas a Mary Phillips – William a Thomas Phillips (ganed 20ed Medi 1865). Yn 1884, ymfudodd Thomas Phillips i Unol Daleithiau'r America, ond dychwelodd ar ôl 9 mlynedd i Lerpwl a phriododd â Mary Parry, merch o Sir Fôn. Bu Thomas Phillips farw ar y 29ain o Dachwedd 1935, ac fe'i claddwyd yn Nyffryn Clwyd. Gadawodd fab a dwy ferch. Fe'i galwai ei hun yn 'Ap Iolen', ac ysgrifennodd lyfr o'r enw 'Bro Deiniol' hanes yr ardal o gapel Glasgoed i Bontrhythallt.

Yr oedd Robert Phillips, mab Thomas Phillips (yr hynaf) yn byw yn Nhanrallt, Dinorwig, ac ef oedd arweinydd Côr Meibion yr 'Arfonic'.

**Thomas Phillips ('Stamps, Llanberis)**

**(Pen-y-Gaer)**
**William – Ann**

**Robert**
**(arweinydd)**
**Griffith**
**Thomas**
**Mary**
**William**
**Thomas**
**Mary Parry**
**1 mab + 2 ferch**

*Annwyl Gyfaill,*

*I bawb o'ch darllenwyr sydd am weld cryfhau safle'r Gymraeg a rhoi rhagor o urddas iddi, hoffwn awgrymu rhai penderfyniadau blwyddyn newydd:*

*1. Cymryd yn ganiataol fod pawb dieithr yn siarad Cymraeg (gan newid os na fyddant yn deall).*

*2. Achub cam y Gymraeg ar bob cyfle posibl drwy anfon gair eich hun ac nid disgwyl i rywun arall wneud (e.e. ceisiadau am arwyddion, hysbysebau, biliau, taflenni Cymraeg neu ddwyieithog).*

*3. Sgrifennu at bob cwmni neu gorff cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg.*

*4. Llenwi pob ffurflen at gyrff yng Nghymru yn Gymraeg gan ofyn am ffurflenni Cymraeg neu ddwyieithog bob tro.*

*5. Pwyso ar yr Ysgol Uwchradd i ddysgu rhagor o bynciau drwy'r Gymraeg.*

*6. Gwneud cais i'r ysgol leol werthu stampiau llyfrau Cymraeg.*

*7. Os nad oes acw ddosbarth Cymraeg i ddysgwyr, galw cyfeillion atoch i drefnu un.*

*8. Os nad oes acw bapur bro, cael yr olwyn i droi i sefydlu un.*

*9. Os ydych yn siopwr neu'n ŵr busnes, gofalu bod y Gymraeg (yn ogystal â'r Saesneg os mynnwch) ar eich siop a'ch biliau a'ch cerbyd.*

*10. Os gofynnir ichi ddweud gair mewn cyfarfod lle bo'r gynulledifa yn un gymysg o ran iaith, gofalu siarad yn Gymraeg i ddechrau.*

*Bydd eich darllenwyr yn gallu meddwl am lawer o benderfyniadau eraill 'rwy'n siwr. Eu cadw sy'n bwysig – yn gyson, yn gadarn ac yn gwrtais.*

*Dafydd Orwig,*
*Bethesda.*


YN EISIAU

**Hen Lyfrau Cymraeg**

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU – RECORDIAU – CARDIAU

**SIOP Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)



ELW AT RADIO C. & A. BANGOR

**CYNGERDD MAWREDDOG**

* CÔR GODRE'R ARAN *
* AR LOG *
* PARTI ERYRI *
* ROSALIND LLOYD A MYRDDIN *
* TONY JONES *
* ANWYN A JANET *

Arweinydd: ROL WILLIAMS
SINEMA'R MAJESTIC, CAERNARFON
am 7.30 o'r gloch, NOS SUL, CHWEFROR 5ed

Tocynnau: Oedolion £1.25 – Plant 75c

I'w cael ymlaen llaw yng Nghanolfan Tanybont; Sinema'r Majestic Gray-Thomas; Siop Fara 'Sellwell'; Siop Y Modur, Caernarfon a hefyd yn Siop Rosalind, Llanberis

# Y GŴR GWADD

## Y PARCH HERBERT THOMAS

**BRAINT yw cael croesawu y Parchedig Herbert Thomas, Llannor i golofn y gŵr gwadd er mai nid dyma'r tro cyntaf i ni dderbyn cyfraniad ysgrifenedig oddi wrtho.**

**Mae ei wreiddiau yn llawer iawn rhy ddwfn yn ardal Dinorwig iddo adael llonydd iddi a mynych iawn y gwelir llythyr neu erthygl ganddo am ei fro enedigol yn yr *Eco*. Croesawn ef y tro hwn fel y gŵr gwadd.**

### FY NGHYSYLLTIAD A'R DYFFRYN

Mae hen deuluoedd Dyffryn Llanberis bron i gyd yn ddisgynyddion i John Closs. Felly finnau. Daeth yma i arolygu y Gwaith Copr rhyw dro cyn 1750, a bu wedyn yn cadw Ty'n Llan, Nant Peris. Dyma fy nghysylltiad ag ef – y seithfed genhedlaeth oddi wrtho.

**1. John Closs**

**2. Elizabeth – Ellis Griffith**

**3. Griffith Ellis (yr hen) – ?**

**4. Elenor – Rowland Williams**

**5. Rowland – Mary Parry**

**6. Eleanor – Griffith Thomas**

**7. Herbert**

Gwelwch felly bod y gwreiddiau yn ddwfn, ac yn egluro, mae'n debyg, paham na allaf adael llonydd i'r lle – a fy mhresenoldeb yn y Cae Pêl-droed pob cyfle a gaf.

### ARDAL DINORWIG YN 1878 O DDYDDIADUR WILLIAM MORRIS, BRON FUCHES, DINORWIG

**CHWEF. 11**: Damwain angeuol yn Y Braich i Rt. Roberts, Cerrig Man (meiner)

**MAWRTH 7**: Locomotive engine gyntaf i dop y Braich.

MAWRTH 19: Heno cyfarfod yn Dinorwig i dderbyn 'yn ffurfiol Robt. O. Williams yn Fugail.

EBRILL 8: Heno yn Dinorwig. Arwyddo Caniatâd i Griff. Jones, Bryn Derwen, Dinorwig gael dechreu pregethu.

MEH. 3: Bore heddyw anafodd Dd. Roberts, Hen Hospital yn drwm, a bu farw yn yr Hospital yn gynnar.

MEH. 27: Mellten yn lladd buwch i Wm. Lloyd, Tŷ Coch, Dinorwig.

GORFF. 30: Boddi mab i Eos Bradwen yn Llyn Padarn, Llanberis. 19 oed.

AWST 22: Cymanfa Caernarvon heddyw. Stopio gweithio yn Chwarel Llanberis er mwyn y Gymanfa.

MEDI 28: Claddu Wm. Hughes, Ebenezer. Gwerthwr glo am flynyddoedd yn Chwarel Dinorwig, yn 81 oed.

HYD. 7: Marw gwraig Ths. Dd. Thomas (Glan Padarn), Tyn Fawnog, Dinorwig.

TACH. 12: Damwain angeuol yn y Garret i Griff Jones, Tŷ Oer, Clwt-y-bont (Garreg Wen gynt) yn 65 ml. oed.

RHAG. 18: Damwain angeuol yn Chwarel Awstralia. Braich i Owen Griff. Williams, Coedgwydr, Nant Uchaf, Llanberis trwy i bowdwr danio arno pan aeth ato rhy fuan, gan dybied ei fod wedi diffodd – yn 31 ml. oed.

RHAG. 19: Dechreu gweithio pedwar diwrnod yn lle chwech yn y Chwarel yr wythnos yma.

(ION. 16: 1879: Dechreu gweithio tri dydd yn lle pedwar yn y Chwarel).

I.A.T.

### PWY OEDD WILLIAM MORRIS?

Brodor o Ddolwyddelan ydoedd, a daeth i weithio at ei ewythr yn Tŷ Coch yn nawdegau'r ganrif ddiwethaf. Aeth i'r Chwarel, a bu yn Arolygwr yn libart Matilda, Y Braich, a'r Allt Ddu. Cadwodd ddyddiadur manwl o 1842 i 1894, ac mae wedi cofnodi pob damwain angeuol ddigwyddodd yn y Chwarel yn ystod y tymor hwnnw. 'Roedd yn gyfaill i Eben Fardd, ac yn gohebu yn gyson ag ef. Bu iddo bedair gwraig, Jane Morris o Allt y Foel; Mary Owen, chwaer i Syr Hugh Owen; Anna Ellis, chwaer i Robert Ellis, Gweinidog Ysgoldy ac Elinor Williams, Siop y Chwarel. Adeiladodd ddau dŷ yn Ninorwig: Bron Elidir yn 1838 a elwid yn gyntaf yn Bron Fuches, ac wedyn y Bron Fuches presennol yn 1850. Gwerthodd y Bron Fuches cyntaf i Griffith Ellis (yr hen) Hafoty yn 1850, gan gadw yr enw i'r tŷ newydd. Bu farw yn 88 oed yn 1900.

# Y BOTEL DDRUD

Un diwrnod cyn y 'Dolig
Prifathro aeth i'r dre
I brynu potel wisgi.
Mae hwn yn well na the!
A phrynodd botel anferth,
Fe blesiai hyn 'rhen wag,
A'i chario wnaeth yn deidi,
Mewn clamp o 'garrier bag'.

Ar hyd y stryd mi gerddodd,
Ond gwelai yn y man
Fod pwysau'r ddiod gadarn
Yn straen ar fag bach gwan,
A chyn i mêt gael cyfle
I feddwl am ddim byd
Mi snapiodd y dam handlan
A lawr â'r sioe i gyd!

Mi driodd arbed codwm
I'r botel enfawr ddrud,
O! gofid fasa'i gweled
Yn deilchion ar y stryd!
Ond malu wnaeth y botel
Er gwaetha'i ymdrech o
A throsdo'r aeth y licar
Wel dyna ddiawch o dro.

Siwt dda amdano hefyd
A'i rencot olau'n siŵr
Yn 'soaked right through' i'w 'unders',
Roedd golwg ar y gŵr!
A ogla fel y bragdy
A hwnnw'n ogla sur,
Nid syn fod boi y garej
Yn gwneud rhyw wyneb hir!

Sut groeso ga'dd o adra'
Pan dd'wedodd am ei gŵyn?
Ai crio ynteu chwerthin
A wnaeth ei feinwen fwyn?
"Dos dros dy ben i'r bath 'na!"
Ga'dd boio'n eitha' siŵr,
A phacio'i siwt i'r 'cleaners'
Reit sydyn wnaeth y gŵr.

Wel dyna i chwi stori
Y botel wisgi ddrud
Gychwynnodd daith reit barchus
A landio ar y stryd.

# Cynnyrch Joni Iard

I IDRIS OWEN, MINFFORDD, PENISARWAUN
ar ei ymddeoliad fel Gweithiwr ar y Cyngor Sir.

Trwy gyfrwng doeth yr Eco,
Mi geisiaf unwaith eto,
I lunio llinell bach neu ddwy,
I frawd sydd yn reteirio.

I'r Sir bu'n ddiwyd ddyddiol,
A'i ferfa yn ymorol,
A chadw ffyrdd y fro yn lân,
Er mwyn y dyrfa dorfol.

Ym Mhen-saerwaen am flwyddi,
Bu'n ddiwyd iawn a theidi;
Yn torri'r gwrych a seidio'r ffordd,
A 'morol am gwteri.

Bu'n deffro bro Waen Wina
Bob bore'n sŵn ei glocsia'
A gwichian cyson berfa bren,
O'r Waen i ben Talsarna.

Ces flas ei gwmni diddan
Pan ar y ffordd fy hunan;
Wrth deithio'r Sir o fan i fan,
Rhyfeddais at ei anian.

'Roedd ganddo ddawn arbennig
I drin y gwŷr bonheddig;
'Roedd hwn yn mynnu parch a chlod,
Wrth fynd a dod mor ddiddig.

Mae gwreiddiau hen ei deulu,
O frid hen banwyr Cymru;
Hwy ddaethant gynt i'n hannwyl fro,
Pan oedd y dreoll yn nyddu.

Mae olion hen y ffactri
Yng nghanol bro Gwaengynfi;
Nid rhyfedd fod ein gwrthrych cu
Yn hoff o sôn amdani.

Os adfail yw y ffactri
A'r llu melinau llechi,
Mae tyddyn Minffordd ar ei draed,
A'r fuches yno'n pori.

Os rhaid ymddatod ennyd
O waith y Sir a'i benyd,
Fe welir Idris eto'n siŵr
Yn troi a thrin y gweryd.

O'i dyddyn tua'r Capel
Boed iddo hwyrnos dawel,
I daro'r gân am flwyddi hir,
heb angen Spirit Level.

Caiff bellach fwy o hamdden,
Ym myd y gân a'r awen;
Yng nghwmni hoff ei briod lân,
Am flwyddi eto'n llawen.

John David Evans,
Maes-y-Dref,
Clwt-y-Bont.

*HIWMOR Y CHWARELWR*
*Casgliad o Straeon a Cherddi Digri*
*gan Joni Iard (J.D. Evans)*
*Cyhoeddiadau MEI. 40c., 40 tudalen*

*O'r diwedd llyfr gan J.D. Evans, Maes y Dre, Clwt-y-bont, Deiniolen (Joni Iard). Cynhwysir nifer o straeon digri ynddo – ffraethebion Griffith Jones y Celyn; Thomas Williams; Hugh Bach Bethel; Robat Jones, Maes Meddygon (Chris), John Jones, Gaerwen; Wil Celwydd Golau, yn eu mysg – a phum cerdd ysgafn o'i eiddo.*

*Gobeithir cyhoeddi mwy o'i gerddi yn y dyfodol ac hefyd rai o'i ysgrifau a enillodd wobrau mewn amryw o eisteddfodau lleol.*


Simneiau glân am bris rhesymol gan



Defnyddir peiriant sugno i lanhau

G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 4781


*J. D. EVANS*



# EGLWYS PERIS SANT

**Hen Eglwys hoff Sant Peris**
**O'th bulpud lawer oes**
**Cyhoeddwyd iachawdwriaeth lawn**
**Trwy'r iawn ar bren y groes;**
**Llewyrchaist ar dywyllwch**
**Canrifoedd pell yn ôl,**
**Arweiniaist luoedd i'r iawn gred**
**O'u hofergoeledd ffôl.**

**O na chaet iaith i adrodd**
**Yr hanesyddiaeth sy**
**Yn gorwedd rhwng dy furiau trwch –**
**Helyntion Cymru fu,**
**Pan oeddynt gynt yn gwylio**
**O'r creigiau uwch dy ben,**
**Ac yna'n ymladd hyd at waed**
**Dros ryddid Cymru Wen.**

**Pe deuai ein hynafiaid**
**Hyd yma ar eu hynt,**
**Ni welent ond tydi dy hun**
**Yn aros megis cynt;**
**Ti gedwi'n well dy urddas**
**Na'r Wyddfa ar ei sedd.**
**Dan law gwyddoniaeth gwelir hi**
**Yn prysur newid gwedd.**

**Mor gu yw dy allorau,**
**Hen Eglwys Peris Sant,**
**Rhyw gymysg atgof ddygant hwy**
**I lawer o dy blant;**
**Pa faint o gyfamodau**
**Wnaed ynot ti erioed**
**Sydd erbyn heddiw'n ddarnau mân**
**Yn garnedd wrth dy droed?**

**Bu seiniau'th gloch hynafol**
**Yn gnul i lawer oes,**
**Ei lleddfol nodau dreiddient trwy**
**Galonnau dan eu loes;**
**Hi wyliodd genedlaethau**
**Yn dod i'w tawel hun –**
**Y cyntaf yno welodd hi**
**A gwêl yr olaf un.**

**Daw'r dydd pan y'th adawant**
**Yn dorf, heb glais na chlwy,**
**Adfeilion bedd-golofnau heirdd**
**Fydd dy gymdeithion mwy;**
**Yn sŵn ffarwél dragwyddol**
**I'r fangre brudd ddihedd,**
**Mewn buddugoliaeth esgyn wnânt**
**I fyd heb ynddo fedd.**

*Rowland E. Roberts, Llanberis. (Cylchgrawn "Cymru", Mehefin 1906)*

*Y Cilan,*
*Craigydon,*
*Llandudno.*

*Annwyl Olygydd,*

*Yn eich rhifyn Hydref 19, 1977 mae gennych ysgrif ddiddorol iawn i mi dan y teitl "Tystion mud i'r Gogoniant a Fu" a darlun o Gerddorfa Gyntaf Capel Bethel. Tynnwyd y darlun o flaen drws ffrynt Llys Myfyr – Tŷ'r Gweinidog. 'Doeddwn i ddim yn y gerddorfa o'r cychwyn. Chwaer i mi sydd yn y darlun, ond pan aeth hi i ffwrdd i weithio cymerais i ei lle a bûm yn chwarae am flynyddoedd – ac yna yn arweinydd y gân nes i minnau adael yr ardal.*

*Yn ddiweddar, gwahoddwyd fi gan y BBC i recordio sgwrs ar y Gerddorfa i'r rhaglen 'Rhwng Gŵyl a Gwaith', a deallaf y darlledir hi ddechrau'r flwyddyn 1978.*

*Yn gywir,*
*Ffowc Williams.*

**Maddeuwch i mi am adael y wybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â'r Gerddorfa allan. Gan fod gofod y mis hwn mor brin rhaid oedd gwneud hyn – ond hoffwn bwysleisio y byddwn yn ei gynnwys ynghyd â'r llun unwaith eto yn ystod y misoedd nesaf. Gyda diolch. Gol.**


# Dau Lyfr Bro

'HIRAETH Y CHWARELWR' (Ail Argraffiad 1.2.78)
gan Wm. Williams 50c (60c drwy'r post)

'HIWMOR Y CHWARELWR'
John Evans (Joni Iard) 40c (50c drwy'r post)

# SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON, Ffôn: 5262

# Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

# Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein telerau rhesymol




# LLANNERCH Y LLENOR

**MAE'N bum munud wedi hanner nos, Ionawr 1af, 1978.**

**Mi fyddai'n gas gan fy mam gael ei chyfarch â'r geiriau "Blwyddyn Newydd Dda" oherwydd rhwng cyfnos a gwawr ar fore cynta'r flwyddyn newydd bu farw ei mam, ac 'roedd diwedd un flwyddyn a dechrau un arall yn dod â'r atgof trist yn ôl iddi bob Nos Galan.**

Ionawr, "January", Ianws. Ianws? Wel, hen Dduw Rhufeinig oedd Ianws, ac yn ôl yr hen hanesion, 'roedd ganddo ddau wyneb – un i edrych yn ôl, a'r llall i edrych ymlaen. Un â'i lygaid tua'r blynyddoedd a aethant heibio, a'r llall tuag at y blynyddoedd a oedd o'i flaen. Edrychai yn ôl i'r gorffennol ac fe edrychai ymlaen i'r dyfodol. Enw da ar fis cynta'r flwyddyn yntê – Ianws, January, Ionawr, ac mae hyn yn rhoi esgus i minnau hefyd daro cip brysiog tros y flwyddyn a fu, ac edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod a cheisio gwneud hynny o fewn i ffiniau bro *Eco'r Wyddfa*, ac o fewn i libart y *Llannerch*.

Yr hyn a roddodd y llawenydd mwyaf i mi yn ystod 1977 oedd sylwi ar y gweithgarwch cymdeithasol a diwylliannol sy'n berwi yn y Ganolfan yn Ninorwig. Pentre sy'n swatio'n ddistaw yng nghesail yr Elidir – pentre na ellwch fynd drwyddo i unman, – ia *dead end* os mynnwch. Ond eto yma yn y pentre hwn, o holl bentrefi dalgylch yr *Eco* y teimlwyd y brwdfrydedd i wneud rhywbeth gwerth chweil, ac i lwyddo i gael cydweithrediad hapus rhwng yr ieuenctid a'r ifanc hŷn. Llongyfarchion cynnes, Dinorwig ar weithgarwch y flwyddyn ac i'r Gangen Adfer am iddynt goroni'r gweithgarwch hwnnw drwy fynd ati i gyhoeddi llyfr diddorol William Williams – **Hiraeth y Chwarelwr.**

Yr hyn a roddodd y siom fwyaf i mi oedd cael fy ysgytio â'r ffigurau diweddaraf, mai dim ond 53.8 o blant Gwynedd sy'n siarad Cymraeg. Cael fy siomi hefyd fod 'na gartrefi ym mro'r *Eco* lle mae rhieni Cymraeg yn siarad Saesneg gyda'i gilydd a chyda'u plant. Oherwydd y mympwy hwn mae'r Gymraeg yn diflannu o sawl aelwyd hyd yn oed yn ein hardaloedd "Cymreiciaf". Cael fy siomi o holi plant y fro faint ohonynt fydd yn gweld "Y Cymro" neu'r "Herald Gymraeg", a'r cylchgronau misol ar eu haelwydydd. A gadewch i ni wynebu'r ffaith mai ychydig iawn fyddai'n ymboeni i fynd i chwilio am gopi o *Eco'r Wyddfa* onibai fod ein papur misol yn cael ei gario o ddrws i ddrws. Ydi, waeth i ni gyfadde ddim, – mae'n awr argyfyngus ar yr iaith Gymraeg yn y Fro Gymraeg. Mae'n frwydr feunyddiol i gadw'r iaith yn fyw ar iard ysgolion a strydoedd pentrefi fel Penisarwaun, Llanrug, Rhiwlas a'r Waunfawr; a tydi peintio arwyddion na dringo mastiau teledu ddim yn mynd i achub yr iaith yn y pentrefi hyn.

Tynnu darlun du ar gychwyn blwyddyn meddech. Naci, dim ond nodi ffeithiau. Ac os am fwy o boendod dowch yn ôl i Ddinorwig am ennyd. 'Roeddwn yn siarad â'r meddyg lleol yn ystod y gwyliau, ac fe'm hysgytwyd pan dynnodd fy sylw at y ffaith fod pentrefi fel Dinorwig a Deiniolen yn marw. Mae ffigurau genedigaethau yr ardaloedd hyn yn profi fod hyn yn wirionedd na ellir ei guddio.

Mae o'n fy nychryn i wrth feddwl tybed a fydd plant bach Deiniolen yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ar droad y ganrif 'ma, a fydd Canolfan lwyddiannus a gweithgar Dinorwig mewn bod – ynteu fydd y fro gyfoethog hon yn Gwm Carnedd o dan gysgod Gorsaf Drydan fwya'r byd?

Gynghorwyr, rieni, blant ac athrawon, – pawb ohonom, ystyriwn y sefyllfa o ddifri – mae'n awr argyfwng ar yr iaith Gymraeg hyd yn oed yn ei chadarnleoedd, ac mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom, holi ein hunain ar gychwyn blwyddyn newydd, a ydym ni yn gwneud ein gorau i sicrhau y bydd yr iaith Gymraeg ar wefusau plant yr ardaloedd ar droad y ganrif.

Ugain mlynedd sy' tan hynny cofiwch!

CYSTADLEUAETH
LLINELL GOLL

Daeth nifer da iawn o linellau i law – dros 200. Cefais bentwr da o Sosial Nant Peris. Diolch yn fawr iawn i chwi gyfeillion y Nant. Syniad da fyddai i Gymdeithasau a Sefydliadau fel Merched y Wawr etc. gynnwys cystadlaethau llinell goll y dyfodol yn eu cyfarfodydd misol. Chwi gofiwch y pennil:

**Saith deg saith sy'n dod i'w therfyn**
**Jiwbili fu'n hawlio'r flwyddyn**
**Hoffwn weld y flwyddyn nesa'**

**(Mici) Yr holl ryfela wedi cwpla**
**(Bugeiles yr Wyddfa) Cael cymodi hefo Leusa**
**(Cocos) Holl blant Cymru'n dwad adra**
**(Batman 2) Nel yn cysgu yn drws nesa'**

gresyn am yr un odl

**(Taff) Y frenhines yn ei charpia**
**(Dim ffug-enw) Gwagio'r llyn a hel trysora**
**(Neb ond y fi) Fi'n cael cadair Eco'r Wyddfa**
**(Y Ddeilen) Dreblu nifer Eco'r Wyddfa**
**(Dib-Inn) Senna pods i golli pwysa**
**(eto) Cymru'n rhydd o grafanc Leusa**
**(Indeg) Mari ac Ann yn golchi clytia**

Y goreuon gen i yw:

**(Tudur) Gwerin Cymru'n cael ei hawlia**
**(Hoffwn deg) Llai o law a mwy o eira**

A'r orau un, sy'n llwyddo i gydio'r syniad o Jiwbili yn rhywbeth personol yw hon gan "Gwahoddiad i bawb":

**Hoffwn weld y flwyddyn nesa'**
**Jiwbili rhen Wil a finna.**

Llongyfarchion cynnes i "Gwahoddiad i bawb" – gobeithio y cewch chi eich dymuniad ac y cawn ninnau i gyd wahoddiad.

Hwyl fawr,
Selwyn

# ANTUR WIL LLONGWR

gan ei frawd, R.W., Rhosbodrual.

**LLANC o'r Ceunant, Llanrug yw Wil Llongwr, a aned yn Lerpwl, ond sydd erbyn hyn yn America ers dros 50 mlynedd.**

**Yn ddeg oed mynychai hen Ysgol Bryn Eryr, Llanrug o dan ddisgyblaeth y diweddar T.J. Lloyd. Pan adawodd yr ysgol yn 14 oed, yn 1916, 'roedd yn rhy ifanc i wasanaeth milwrol, ac aeth i weithio i'r Coparét yn y dref. Byddai yn lojio yno yn ystod yr wythnos gan nad oedd cludiant hwylus, a'r cyflog yn brin. Byddai wrth ei fodd yng nghymdeithas y dref ac yn cael hwyl ymysg y cofis. Arferai ddweud eu hanes a'u dywediadau doniol ar ôl dod adref dros y Sul.**

O Gaernarfon aeth i weithio at ei ewythr, J.R. Morris, yn y Sea Insurance Agency yn Lerpwl. Gan fod J.R. yn ofalwr 'Clwb Young Wales' gyda'r nos, yno y treuliai Wil ei oriau hamdden. Felly y daeth i adnabod llawer o'i gyfoedion, a'u hudo i'r môr.

Ei swydd forwrol gyntaf oedd clerc ar un o longau yr Elder Dempster Line a fasnachai tua glannau Gorllewin Affrig i lawr at y Penrhyn. Gwnaeth rhyw ddeg trip i Dde Affrig yn y cyfnod wedi'r Rhyfel, a phob un ohonynt yn llawn antur, yn ôl y storiau a ddygai adref i ni'r plant. Gwyddem am enwau swynol Madeira, Tenerife, Las Palmas yn Ynysoedd y Caneri a phob porthladd o Freetown, Sekondi, Accra, Lagos hyd Cape Town. Onid dyma gefndir straeon y môr? Dygai ffrwythau o'r trofannau fel pînafalau ac orennau gwyrddion i ni a mawr fyddai'r disgwyl amdano o'i fordeithiau, gan na wyddech ar y ddaear beth a ddygai nesaf adref i'w ganlyn. Cofiaf iddo ddod ag amryw adar a mwnciod, yn ôl addewid i hwn a'r llall. Prynai barrot ifanc am tua £2.50 tua'r Gulf of Guinea – aderyn llwyd, cynffon goch o lannau'r Forcados River yn Nigeria. Gofalai yn dyner amdano nes ei gael adref mewn cawell o bren a barrau heyrn. Fe gawsom ni'r plant un ganddo ac yr oedd yn ffefryn mawr gan blant Tan-y-coed, yn Ysgol Bryn Eryr. Cofiaf am lawer tro trwstan ynglŷn â'r parrot a chofnodais hwy ar ffurf rhigymau er eu cadw ar gof.

Yn nechrau'r dau-ddegau, 'roedd masnach rhwng y gwledydd ar drai ac yn aml byddai Wil gartref heb long. Pryd hynny byddai yn gorfod teithio i Lanberis ar feic i seinio'r dôl. Daeth felly i adnabod llawer o bobl ifanc o'r un oed yn Llanrug a Llanbêr.

Cofiaf iddo un tro, wrth blefian yn sgwâr Llanrug, gael ei wthio, gan rhyw eneth, trwy ffenast Siop Gryffis a thorri'r gwydr yn deilchion. Chwarae yn troi'n chwerw oedd hwnnw a gostiodd yn ddrud iddo, ar amser mor fain.

Ar ôl y cyfnod hwn, aeth i'r môr drachefn, ar longau'r White Star Line. Bu'n hwylio i Constantinople (Istanbul yn awr) yn Nhwrci. Cafodd drip arall i New York ond bu heb long am



*Wil Llongwr*

sbel wedyn. Ni ddychwelodd adre ond seiniodd ar hen dramparllong a hwyliai o borthladd i unrhyw fan y câi lwyth i'w gludo yno.

Deallwyd wedyn fod Wil wedi bod yn Jamaica ac oddi yno i New York gyda llwyth o molasses. Dyna'i fordaith olaf. Dihangodd Wil o'r llong i'r lan yno heb ddim ond ei bapurau llongwr. 'Roedd yn mentro i'r wlad heb ganiatâd. Gan fod gan ei dad frawd a chwaer briod yn byw yn Utica, Efrog Newydd, cafodd groeso yno ganddynt a chartref tros dro nes y câi waith. Deallodd, yn fuan, fod yn rhaid i chwi yno, fod fel 'pobol Sir Fôn' yn y chwarel, yn medru gwneud pob peth a awgrymid iddo. On'd oedd ei hen daid yn frodor o 'Wlad y Medra'! Cafodd swydd fel clerc gyda chwmni gwresogi oedd yn cyflenwi gwres i dai a swyddfeydd y ddinas. Yno cyfarfu ag eraill o'r hen ardal yn gweithio fel plastrwyr, er mai ffermwr defaid a chigydd oeddent gynt. Trwy fynychu'r Capel Annibynwyr Cymraeg a gwasanaethu fel Athro Ysgol Sul, daeth i adnabod llawer o Gymry o'r hen wlad, rhai yn berthnasau iddo hefyd.

Cofiaf iddo fod yn brin o ddefnydd drama ac imi ddanfon dau neu dri o lyfrau sgetsus iddo yn y pum-degau.

## PRIODAS HYNOD

Yn 1927 syndod a llawenydd o glywed ei fod wedi priodi. Anfonodd doriadau o'r papurau newydd yno i'w fam yn rhoi hanes yr achlysur. Daeth darluniau o'r briodas a'r manylion wedyn. Dyma un o'r lluniau gwreiddiol.

Merch o deulu Is-Almaenig-Americanaidd oedd Hazel Mootz, y briodferch a aned yn Utica, gan fod y teulu yno ers cenhedlaeth neu ddwy.

Cynigid priodas gyhoeddus i unrhyw bâr oedd â'u bwriad ar briodi gan gwmni ffilmio i fod yn ganolbwynt eu ffilm y 'Wedding March'. Wil a Hazel a ddewiswyd i'r rhan, a phriodwyd hwy yn yr Avon Theatre am 9 o'r gloch y nos, o flaen cynulleidfa o ddwy fil o dystion. "Avon Theatre Wedding is credited with record Utica Attendance when more than 2,000 witness ceremony." Dyna oedd y pennawd pan lanwyd y seddi a'r mynedfeydd a llawer yn disgwyl tu allan i gael golwg ar y pâr lwcus.

"Priodwyd Hazel E. Mootz a William R. Williams gan y Parch. S.B. Gray, New Hartford, trwy seremoni modrwy. Canwyd 'At Dawning', gan Mrs. Florence Hughes Start a'r 'Wedding March' ar yr organ gan Stephen Bosclair. Miss Marietta Mootz, oedd y forwyn briodas a Mr. Victor Whitehead y gwas priodas. Yn dilyn y fendith cyflwynodd yr organydd anrhegion gan tua 30 o fasnachwyr y ddinas; sef modrwy briodas aur; gŵn a fêl, siwt i'r priodfab, gwahoddiadau, cyhoeddiadau, blodau, darluniau, gwasanaeth tacsi, llestri arian a tseini, coffr gedrwydd, cloc banjo a lamp llawr." Treuliwyd y melrawd i lawr yn y de, yn Fflorida.

Aeth 50 mlynedd heibio ers hynny a bu llawer tro ar fyd. Gwelodd Wil godi teulu – 3 merch a mab. Wynebodd gyfnod o dlodi a thrueni gyda di-weithdra y tri-degau. Byddai'n falch o unrhyw swydd, er ei distadled. Cofiaf iddo fod yn 'tyre-fitter' yn y bore a 'pastry-cook' gyda'r nos. Bu Golygydd *Eco'r Wyddfa*, gyda'i dad a'i fam ar ymweliad ag ef, rai blynyddoedd yn ôl. David Jones, Rhes Efrog, Llanberis oedd yn ymwelydd arall â'r teulu sawl tro. Pan fu Wil ar ymweliad â'i famwlad yn 1969, 1971 a 1973 bu'n edrych am rai o'i hen gyfoedion tua Llanbêr ac yr oedd ei Gymraeg mor loyw ag erioed ar ei fin.



*Llun o Jack Jones, Ysgoldy, Gaerwen, Ned Williams, Gof, Penisarwaun, ac Isaac Hughes, Deiniolen, 1928–29. (Y llun trwy ganiatâd Robert Jones (Robin Fawr), Ysgoldy, Gaerwen.)*

*Annwyl Olygydd,*

*HANES MEDDYGINIAETH*

*Bwriadaf roi ar gof a chadw hanes yr hen feddyginiaeth i godi'r ddafad wyllt.*


*Bu miloedd o Gymru a channoedd lawer o rannau eraill o Brydain ac o wledydd pellach yn gweld 'dyn y ddafad wyllt', chwedl pobl, naill ai yn siop Penygraig neu yn siop Penycaerau, Llyn.*

*Mae y rhelyw o'r llythyrau wedi eu diogelu ond byddwn yn falch o gael gwybod am unrhyw atgofion anarferol, neu wybodaeth brin a all fod yn eiddo i un o'r darllenwyr.*

*Mae'r bennod bellach wedi ei chau, wedi marwolaeth Owen Griffith, a chredaf ei bod yn bwysig i ddiogelu peth o'r hanes.*

*Harri Parry,*
*Y Gadlas, Lôn Ddewi,*
*Caernarfon.*


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans



STORFA
Mace
S.&E. Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2790
BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD



S. JONES
CYFANWERTHWR FFRWYTHAU
*(WHOLESALE FRUITERER)*
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

# CWM-Y-GLO

**PASIANT Y GENI** – Bu i blant Ysgol Sul Sant Gabriel gyflwyno eu pasiant Nadolig yn Eglwys Sant Gabriel ar y nos Sul o flaen y Nadolig. Addysgwyd y plant gan Mrs. K. Watkins, Dolwen yn cael ei chynorthwyo gan athrawon yr Ysgol Sul, ac yr oedd graen ar y perfformiad. Yr organyddion oedd Miss C. Hughes a Judith Orritt.

**GWASANAETHAU'R NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD** – Gweinyddwyd yr Offeren Fore Nadolig yn Eglwys Sant Gabriel gyda'r Rheithor yn gweinyddu. Yr oedd nifer dda wedi dod ynghyd. Nos Calan arweiniwyd gwasanaeth Gwylnos gan y Rheithor a chafwyd cynulleidfa deilwng iawn.

**MARW** – Yng nghartref Ceris, Bangor, bu farw Miss G.M. Roseveare, Tan-y-Rhiw. Yr oedd Miss Roseveare yn wraig nodedig iawn. Yn hanu o Gernyw ac yn falch o'i chysylltiadau Celtaidd. Eglurai gyda balchder mai ystyr Roseveare oedd Rhos Fawr ac yr oedd yn falch o fod yn byw yng Nghymru oherwydd treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yng Nghymru. Bu am gyfnod o bymtheng mlynedd yn ysgrifennydd i Sir Harry Reichel yn y Brifysgol ym Mangor. Wedi treulio dwy flynedd yn Sbaen dychwelodd i Gymru i Aberystwyth lle y treuliodd dair blynedd ar hugain fel llyfrgellydd gyda'r Imperial Bureau of Pastures and Crops a derbyniodd yr M.B.E. am ei gwaith yno. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Sant Gabriel ac yn Gristion i'r carn ac yr oedd iddi rhyw addfwynder nas gellir yn iawn ei ddisgrifio. Bu yn gyfaill i lawer a gwnaeth fwy nag un gymwynas yn ddiarwybod i lawer. Yr oedd tyrfa luosog yn Eglwys Sant Gabriel ar ddydd ei harwyl a gwasanaethwyd gan y Rheithor gyda Miss C. Hughes wrth yr organ. Y Rheithor a wasanaethai wrth lan y bedd ym mynwent Llanrug hefyd.

**GWAELEDD** – Dal yn yr ysbyty y mae Miss E.G. Morris, Bron Eryri a deallwn hefyd fod Mrs. M.E. Hughes, Craig-y-Don wedi bod yn yr ysbyty ym Mangor ac anfonwn ein cofion atynt.

**UNDEB Y MAMAU** – Bu cyfarfod i aelodau Undeb y Mamau yn Ysgol Cwm-y-glo yn ddiweddar. Arweiniwyd y Gwasanaeth gan y Rheithor a chyfeiliwyd gan Miss C. Hughes. Y gŵr gwadd oedd Mr. R.A. Roberts, Bryn Gro a ddangosodd sleidiau hardd o'i daith yn yr Eidal. Dangosodd hefyd sleidiau o'n hardal ein hunain. Diolchwyd iddo gan Mrs. Orritt. Y gwestwragedd oedd Mrs. L. Orritt a Mrs. H. Roberts a diolchwyd iddynt gan Mrs. Owen, Isfryn. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

**CRONFA'R EISTEDDFOD** – Dechreuwyd casglu arian er budd Eisteddfod '79, gyda Noson Goffi ac arwerthiant. Gofalwyd am y raffl gan Mrs. Avril Jones, Mrs. Rhiannon Casey, Mr. David Price a Mrs. K. Watkins, a'r enillwyr oedd Mr. H. Williams, Mrs. Hilda Humphreys, Mr. Allan Jones a Mr. Llew Hughes. Gwnaed elw syleddol.

**CROESO** – I faban cyntaf 1978 i'r Cwm, sef Carwyn – mab a aned i Mr. a Mrs. Humphreys, 19 Dolafon, a brawd i Cenwyn a Rhona.

**DIOLCH** – Dymuna Mrs. Edith Owen, Talgwynedd, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am bob caredigrwydd a dymuniadau da a dderbyniodd tra yn yr ysbyty, ac ar ôl dychwelyd adref.

**ADRE'N ÔL** – Da gennym weld Mrs. Ellen Morris, Celynen House, Mrs. Mattie Hughes, Craig y Don a Miss Eirian Williams, Elidir View gartref o ysbytai. Gwellhad buan i chwi a'n cofion atoch.

**CYNGERDD** – Bu cyngerdd llwyddiannus ym mis Rhagfyr dan nawdd y gangen Lafur leol. Cymerwyd rhan gan blant yr ysgol a Pharti Gwaun Cynfi, gyda Mr. Gordon Ward yn arweinydd. Enillodd Mrs. Rose Fowler y raffl – bocs o nwyddau – ac yn garedig iawn fe'i dychwelodd i'w werthu ar ocsiwn.

**MARWOLAETH** – Daeth nifer fawr i Eglwys St. Gabriel i angladd Miss Gladys M. Roseveare, Tan Rhiw. 'Roedd yn 92 oed ac yn enedigol o Gernyw. Yn wraig hynod ddysgedig, 'roedd yn rhugl mewn Almaeneg, Ffrangeg a Sbaeneg. Bu'n Ysgrifenyddes breifat i Syr Harry Reichel ym Mangor am flynyddoedd a chafodd y cyfle bryd hynny i fynd ar daith o amgylch y byd. Yn ddiweddarach bu'n llyfrgellydd gyda'r Biwro Imperialaidd yn Aberystwyth am flwyddi maith, ac yno derbyniodd anrhydedd M.B.E.

Daeth i Gwm-y-glo yn 1953, gan ymaelodi yn Eglwys St. Gabriel, lle bu'n aelod ffyddlon tra gallodd. Cefnogodd bopeth o werth ym mywyd y pentref, gan ddal i wneud hynny er cael ei chaethiw gartref am gyfnod hir. Enillodd ei natur hynaws ei sgwrs felys adeiladol, a'i safbwynt diysgog yn erbyn unrhyw drais, lawer o edmygwyr a chyfeillion. Cydymdeimlwn â'i theulu, ac â'i ffrind arbennig, Miss Liefmann – yn eu profedigaeth.


**CYDYMDEIMLO** – Ein cydymdeimlad diffuant â Mr. a Mrs. Edgar Williams, Fron Gader, ar farwolaeth tad Mrs. Williams, yng Nghaerlyr.

> **Gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch; gochel y pethau hyn a dilyn gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad, amynedd ac addfwyndra. (1 Tim. 6.)**

## YR HEN GWCH LECHI (parhad o'r dudalen flaen)



*Y Deifwyr ar y "platform" lle y crogai'r cwch oddi tano.*



*Mr. H.R. Jones o'r Amgueddfa Chwarel yn derbyn y darn cyntaf o'r cwch.*



*Y cwch yn gweld golau dydd am y tro cyntaf ers dros 150 o flynyddoedd. Gosodwyd tarpowlin amdani o dan y dŵr.*



*Yn ddiogel ar y lan o'r diwedd ac yn barod i fynd i'r Amgueddfa yn y Gilfach Ddu i'w thrin gan arbenigwyr.*

## YM MYD MODURO



Dylai golchi eich car yn rheolaidd gynnwys golchi oddi tano. Mae hyn yn hynod o bwysig yn y gaeaf, pan roddir tywod hallt ar ffyrdd llithrig.

Wedi'r golchi; cofiwch archwilio'r paent neu'r sêl (underseal) yn ofalus, rhag ofn fod peth o'r metel yn noeth, gan roi sylw arbennig i'r mannau pwysig. Atgyweiriwch ar unwaith, gan y gall hyn achosi rhwd. Bellach, mae rhwd yn y mannau hyn, yn un o'r rhesymau am fethiant eich modur i dderbyn ei dystysgrif (MOT) ac o'r herwydd gall eich esgeulustod gostio'n ddrud i chwi.

## "YR HEN A ŴYR..."

**Tra'n diolch am ffyrdd newydd a ddaeth yn sgîl Cynllun Trydan Dŵr Dinorwig mae tuedd ynom i anwybyddu yr hen ffyrdd a phontydd a weithiodd am ugeiniau o flynyddoedd. Cyfeirio yr wyf at Bont Penllyn. Adeiladwyd y bont newydd yn sydyn iawn, ond erbyn hyn – a rhoi'r bai ar y traffig trwm, mae'r bont newydd wedi sigo, a rhaid defnyddio'r hen bont unwaith eto. Sylfaenwyd hon ar graig, a'r llall mewn cors. Nid yw'n bolisi heddiw i wneud i ddim barhau'n hir.**


10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

**E.WILSON HUGHES**
**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**

*Ffôn: Llanberis 491*

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

# LLANBERIS

**DIOLCH** — Dymuna Robert G. Williams, 11 Rhes Victoria, ddiolch i'w berthnasau, cyfeillion a'i gymdogion am yr anrhegion a chardiau a dderbyniodd pan yn yr ysbyty, ac ar ôl dychwelyd adref.

Hoffai ddiolch hefyd i staff Adran Damweiniau, Ysbyty Môn ac Arfon, am eu caredigrwydd.

**PLAS PENGWAITH** — Yn ystod bore'r Nadolig galwodd Siôn Corn yn y cartref. 'Roedd ganddo anrheg i bob aelod o'r cartref yn ei sach.

**MARWOLAETH** — Dydd Iau, Rhagfyr 29 yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon bu farw Mr. Peris Thomas, 28 Maes Padarn.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w wraig a'i blant.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** — Treuliwyd y cyfarfod diwethaf yng nghwmni Miss Williams, Summerhill a Mrs. Owen, Castle View.

Cafwyd adroddiad hynod ddiddorol ganddynt am eu gwyliau yn yr Aifft ac Israel.

**RHODD** — Y Sul cyn y Nadolig cyflwynwyd Beibl i ddeg o bobl ifanc Eglwys Nant Padarn gan Mr. Thomas Evans, Caredfryn, ar yr achlysur o'u derbyn yn gyflawn aelodau o Eglwys Crist.

Diolchwyd iddo gan y Parch. O. John Hughes, gweinidog Jerusalem.

**DIOLCH** — Mae'r llu pensiynwyr yn yr ardal wedi gwerthfawrogi y rhodd o 'logiau tân' a gawsant cyn y Nadolig, hefyd yn diolch i'r criw bach o ddynion ifanc yr ardal a fu'n brysur yn torri'r logiau, a'u dosbarthu o dŷ i dŷ drwy'r pentref.

**PENODIAD** — Llongyfarchiadau i Mr. Bert Thomas, J.P., Newton St., ar ei ddyrchafiad gyda Bwrdd Swyddfa'r Post. Penodwyd ef gan yr Ysgrifennydd Gwladol Diwydiant i fod yn aelod o Fwrdd Swyddfa'r Post dan lywyddiaeth Syr William Barlowe.

**MARWOLAETH** — Ar y 6ed o Ionawr bu farw Mrs. Annie Stubbs, 'Kenya', ychydig ddyddiau ar ôl dathlu ei phen-blwydd yn 103.

Fe'i ganwyd hi yn y pentref, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes ym Manceinion ac hefyd yn Affrica.

Cydymdeimlwn â'i merch a'i mab yng-nghyfraith Mr. a Mrs. R.J. Williams 'Kenya'. Bu eu gofal yn fawr iawn amdani.

Dymuna Mr. a Mrs. R.J. Williams ddiolch i bawb am y llu cardiau a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth.

**SALWCH** — Dymunwn lwyr wellhad i Mrs. Mary Thomas, Ffordd Tŷ Du, sydd ar hyn o bryd yn Uned Geriatric Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Heather, merch Mr. a Mrs. Charlie Saynor, Maes Padarn ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Simon.

**DIOLCH** — Dymuna Mrs. Nellie Morris, 17 Dôl Eilian ddiolch i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati tra bu'n sâl yn ddiweddar. Diolch hefyd i feddygon yr ardal ac i feddygon a staff Uned McMillan, Ysbyty Bryn Seiont.

**MULTIPLE SCLEROSIS** — Tynnwyd raffl yng Ngwesty Erw Fair er budd yr uchod. Yr enillwyr oedd: Offer Cegin o Ddur Dwl: Mrs. Nellie Morris; Basged-aid o Ffrwythau: Geraint Morris; Jar o Nionod Picl: Mrs. Elizabeth Griffiths. Trosglwyddwyd y swm o £21 i Gangen Gwynedd.

**CRONFA APÊL EISTEDDFOD 1979** — Gwnaethpwyd elw o £37.50 gyda'r Yrfa Chwist a gynhaliwyd ar Ragfyr 16 a £38.32 gyda'r Disco a gynhaliwyd ar Ionawr 13. Daw'r arian i mewn gan y casglyddion hefyd ac erbyn hyn mae mwy na £270 yn y Gronfa.

Cynhelir Bingo yn y Ganolfan nos Wener, Chwefror 10 am 7.30. Bydd y noson yng ngofal Mr. Dic Jones.

Nos Sadwrn, Mawrth 4ydd bydd noson 'Cawl a Chân' yn yr Erw Fair. Pris tocyn fydd: £2. Bydd 70 o docynnau ar gael, felly y cyntaf i'r felin gaiff falu.

Diolchwn yn fawr i Mrs. Vera Hughes Siop Chips am raffl mis Ionawr, sef dol wedi ei gwisgo. Raffl mis Chwefror yw gwasgod wedi ei chrosio, rhodd gan Mrs. Delia Parry, Plas Tirion. Diolch yn fawr iddi hithau. Diolch i chwithau am eich cefnogaeth. Bydd y pwyllgor nesaf, nos Iau, Chwefror 16 yn Ysgol Dolbadarn am 7.30.

**PLAS PENGWAITH** — Fel arfer ar fore'r Nadolig ymwelodd Santa Clos, gydag anrheg i'r preswylwyr, a chafodd groeso cynnes. 'Roedd y Cynghorydd Francis Jones, Mr. Lal a Ken Jones yno i'w groesawu. Ar ôl cyflwyno'r anrhegion ymunodd pawb mewn canu carolau.

Gydag elw y Noson Goffi lwyddiannus prynwyd Set Deledu lliw. Manteisir ar y cyfle hwn i ddiolch yn gynnes i bawb am bob cymorth bach a mawr, tuag at y noson goffi.

**BRYSIWCH WELLA** — Mrs. Mary Thomas, 14 Pant Du, sydd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Mr. Ted Thomas, 15 Ffordd Tŷ Du sydd wedi ei gyfyngu i'r tŷ am ychydig wythnosau. Mr. A. Roberts, Lodge Cambria, Stryd Fawr. Mr. Owen Thomas, 2 Turner St. Dymunir adferiad i chwi oll.

**CLWB METHEDIG ERYRI** — Cynhaliwyd cinio Nadolig y Clwb uchod ar Ragfyr 19. Yn bresennol yr oedd Oswyn Rees, Swyddog Rhanbarthol Arfon o'r Gwasanaeth Cymdeithasol a phedwar o'r gweithwyr. Cymerwyd rhan yn y cyngerdd gan Miss Marion Hughes, Mr. Brown, John Roberts a George Morris.

**CARNIFAL 1978** — Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn gysylltiedig â'r Carnifal nos Iau, 9ed o Chwefror yn y Ganolfan am 7.30. Croeso cynnes i bawb.


Cefnogwch ein Hysbysebwyr

ALLAN O'R DIWEDD!
YN EICH SIOP LEOL —

**Hiwmor y Chwarelwr**

Straeon a Cherddi Digri gan
**JONI IARD (J.D.Evans)**
Maes y Dre, Deiniolen

40c
Cyhoeddiadau
mei
Bryn Mair, Dolydd
Y Groeslon, Caernarfon
(Llanwnda 830003)


# BETHEL

**YR URDD** — Nos Fercher ar ôl y Nadolig aeth tua thrigain o aelodau'r Urdd i Theatr Gwynedd, Bangor i weld y Pantomeim 'Jac y Jyngl'. 'Roedd yn noson lwyddiannus a phawb wedi mwynhau ei hun.

**LLONGYFARCHIADAU** — I David ac Ann Evans, Blaen Parc ar gyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed ar Ionawr 3ydd. Llongyfarchiadau hefyd i Paul K. Banholzer, Riverside, Penrhos fydd yn ddeunaw oed ddydd Sul, Ionawr 29 29ain.

**MERCHED Y WAWR** — Nos Fawrth, Ionawr 10ed bu nifer o aelodau Cangen Bethel yn ymweld a Changen Penrhos Bangor. Cafwyd noson ddifyr o ddawnsio gwerin dan ofal Mr. Gwyn Williams, Bangor. Nos Fercher Ionawr 11fed cafwyd sleidiau yn dangos y gwaith a wneir yn Ysgol Pendalar Caernarfon gan Mrs. Catherine Jones, y brifathrawes. Rhoddwyd rhodd i'r ysgol gan yr ysgol sef elw'r raffl a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Mae'r Gwely Ripple a brynwyd gan y gangen yn awr ar gael i unrhyw un yn y pentref sydd ei angen.

**CYDYMDEIMLAD** — Dydd Mercher, Ionawr 11 bu farw Mr. Emrys Jones, Glyn Trefor. 'Roedd Mr. Jones yn 72 oed a rhoddodd oes o wasanaeth ffyddlon i gapel Bethel ac i'r pentref. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i'r teulu.

**PLAID CYMRU** — Yng nghyfarfod blynyddol y gangen nos Fercher, Ionawr 18 dewiswyd y swyddogion canlynol: Llywydd: Mr. Bill Evans, Gorffwysfa, Is-lywydd: Mr. Owain Bebb, Llwyn Eithin. Trysorydd: Mr. Gareth Jones, Rhos Arfon; Ysgrifennydd: Mr. Geraint Elis, Sycharth. Trefnwyd Gyrfa Chwist yn y Neuadd nos Fercher Chwefror 15 am 7.30.

**YN GWELLA** — Croeso adre i Mr. Madoc John Owen, Pennant, Tan-y-ffordd. Bu Mr. Owen mewn ysbyty yn Llandudno am gyfnod.

Da iawn gennym ddeall fod Mr. Gwilym Jones, Y Ddolwen yn gwella yn Ysbyty Môn ac Arfon. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERNARFON** — Mae Pwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979 wedi penderfynu Clwb Cant i godi arian ar gyfer y gronfa leol. Y gobaith yw cael 100 o bobl i gyfrannu £1 y mis am 18 mis. Bydd 35% o'r arian yn cael ei roi fel gwobrau i'r aelodau bob mis.

Pan fydd 100 wedi ymuno bydd gwobrau o £20, £10, £5 yn cael eu tynnu bob mis. Bydd y gwobrau cyntaf yn cael eu tynnu ganol mis Chwefror. Dyma ffordd hawdd ac os byddwch yn lwcus ffordd rad iawn i gyfrannu at yr Eisteddfod. Gallwch ymaelodi trwy gysylltu â Mr. Dafydd Williams, Hafod, 6 Y Rhos neu Mr. Seiriol Owen, Crud yr Awel.

Mae'r pwyllgor eisoes wedi cael addewidion o wobrau ar gyfer raffl sy'n cael ei threfnu ar gyfer ffair Wanwyn a gynhelir yn y Neuadd.

**GALARGAN I EMRYS**

**Eglwys Bethel rhwyg dy fantell**
**Dod ddu orchudd dros dy wedd,**
**Mynd a wnaeth dy flaenor hynaf**
**At ei Dduw i dawel hedd.**
**Am y Cyfiawn fe fydd cofio**
**Tra parhao oesoedd byd,**
**Ac am Emrys byth a gofiwn**
**Er ei fod yn awr yn fud.**

**Cyfaill oedd yn hawdd ei garu**
**Trwy y fro fe gafodd barch,**
**A distawrwydd ddaeth i Fethel**
**Pan y rhoddwyd ef mewn arch.**
**Dyna nodwedd pur ein cyfaill**
**Dyn i'w oes, a dyn i'w Dduw,**
**Erys blodau ei rinweddau**
**Drwy yr ardal hon yn fyw.**

**Blaenor ffyddlon oedd i'w Eglwys**
**Ni oddefai unrhyw ddrwg.**
**Carai'i gyd-ddyn yn y Cyngor**
**Gyda'r wên heb unrhyw wg.**
**Hoffai Undeb a brawdgarwch,**
**Ond dirmygai ragfarn cas,**
**Yn ei fywyd carodd ynddo**
**Grefydd Duw yn llawn o ras.**

**Twm Bethel.**

# DINORWIG

**I'R YSBYTY** — Dymunir gwellhad buan i Mr. John E. Thomas, Bwlch Gwynt, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

**LLONGYFARCH** — Llongyfarchiadau calonog i Mr. Eric Iolen Williams, Tŷ Capel, Dinorwig ar ennill ohono gwpan i'w chadw iddo'i hun, mewn ras Ymrysonfa Cŵn Defaid ger Llandudno.

**CYMDEITHAS UNDEBOL LLENYDDOL** — Nos Iau, Rhagfyr 15 yn Eglwys St. Mair cynhaliwyd gwasanaeth o Ganu Carolau wedi'i drefnu gan y Parch. Ifor L. Williams. Dechreuwyd y cyfarfod gan y Ficer, Parch. Geraint Edwards, a chymerwyd rhan mewn darlleniadau a chyflwyno'r carolau gan aelodau o'r gymdeithas.

Nos Iau, Ionawr 5 yn Festri Dinorwig cynhaliwyd cwrdd gweddi undebol dan nawdd y Gymdeithas. Trefnwyd y cyfarfod gan y Parch. Ifor L. Williams. Gwasanaethwyd gan yr aelodau.

**RHODD NADOLIG** — Cyflwynwyd ar ran Clwb Ieuenctid Dinorwig rodd Nadolig o de a siwgwr a thun ffrwythau i bob pensiynwr Dinorwig a'r Fachwen. Diolchir o galon iddynt am eu cymwynas ymarferol.

**CYDYMDEIMLO** — Ionawr 4 bu farw Mr. Thomas Roberts, Bronallt. Cydymdeimlir â'r bechgyn Mr. Emrys Roberts, Wrecsam a Mr. Hugh Roberts Bwcli a'r cysylltiadau teuluol eraill yn eu profedigaeth.

**CIOSG FACHWEN** — Ychydig amser yn ôl daeth cais i'r Swyddfa Bost i symud y ciosg sydd o flaen hen lythyrdy Fachwen.

Atebiad y Swyddfa Bost oedd ei symud i ardal arall. Ar y llaw arall 'roedd y Cynghorydd Renell Williams gyda chefnogaeth Cyngor Cymdeithasol yn bendant o blaid ei gadw yn y Fachwen. Dydd Mercher, Ionawr 11 cafodd Cynghorwyr Renell Williams, Jacob James a Hugh Thomas gyfarfyddiad a dau Swyddog Post yn y Fachwen. Fel canlyniad i hyn cytunwyd ar gadw'r ciosg yn y Fachwen ond ei leoli mewn man arall yn y Fachwen, os derbynnir cymorth ariannol gan Gyngor Arfon a Chyngor Gwynedd i gynorthwyo'r Cyngor Cymdeithasol gyda'r gwaith.

**CRONFA'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL** — Bydd pawb a fydd wedi cyfrannu £3 a drosodd i'r gronfa uchod erbyn mis Mai y flwyddyn hon yn cael eu henwau ar restr Rhaglen Swyddogol yr Eisteddfod.

**DAW Y RHIFYN NESAF ALLAN AR MAWRTH 2**

**Y deunydd i law'r Golygydd erbyn CHWEFROR 21**

# LLYFRAU

Daeth pentwr go dda o lyfrau allan o weisg Cymru eto yn ystod y Nadolig – ond ychydig iawn o wybodaeth am y rhain a gyrhaeddodd fwrdd golygyddol yr Eco. Syndod a dweud y lleiaf yw'r ffaith nad yw'r rhan fwyaf o'r gweisg wedi gwneud defnydd o golofnau papurau bro, drwy yrru gwybodaeth am eu llyfrau o gofio fod Eco'r Wyddfa a'i fath yn cyrraedd miloedd o Gymry Cymraeg. Efallai, rhyw ddiwrnod y gwêl y cyhoeddwyr y golau.

Dyma'r llyfrau a'r wybodaeth a gyrhaeddodd yr Eco.

HUWS Y SISWRN : gan Harry R. Hughes.

Dyma un o'r llyfrau a gyhoeddir gan y Cyngor Llyfrau ar gyfer llyfrgelloedd yn unig mewn ymgais i ddiwallu ychydig ar yr angen mawr am lyfrau poblogaidd eu hapêl yn Gymraeg ac i anelu at ddarllenwyr nad ydynt o angenrheidrwydd yn llengar. Er mai hunangofiant dychmygol yw Huws y Siswrn mae'r gyfrol yn bortread cywir iawn o ardal Gymreig y chwarel 'nôl yn nechrau'r ganrif a thros gyfnod y ddau Ryfel Byd.

Y LLEWOD MEWN SYRCAS a Y LLEWOD AR YNYS CRISTYN gan Dafydd Parri.

Os gwna rhywun ffafr fawr â phlant Cymru – Dafydd Parri yw hwnnw. Dyma ddwy stori eto am hynt a helyntion y Llewod. Chwi rieni'r fro – prynwch nhw i'ch plant – ychwanegwch at y gyfres sydd eisoes yn eich meddiant gobeithio.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan Y Lolfa.

BYWYD BOB OWEN gan Dyfed Evans.

Yr oedd gan Bob Owen Croesor 47,000 o lyfrau yn ei feddiant. Gwyddai yn union ymhle 'roedd pob un, a gwyddai yn union beth oedd cynnwys pob un. Aeth rhywfaint o gynnwys pob un o'r llyfrau hynny i greu'r cymeriad anhygoel hwnnw. Ac mae'r cymeriad anhygoel hwnnw I GYD yn yr un gyfrol hon – Bywyd Bob Owen. Felly, dyna ichi 47,000 o lyfrau am bris un. Fedr neb fforddio colli bargen fel'na.

## CYSTADLAETHAU LLYFRAU CYMRAEG GWYNEDD 1977–78

Mae cyfle eleni eto i unrhyw un sydd â stori, sgript, nofel, llyfr neu unrhyw ddefnydd dysgu ar gyfer plant i'w hanfon i un o gystadlaethau llyfrau Cymraeg Cyngor Sir Gwynedd. Hyd yn oed os nad yw'r deunydd yn barod, mae amser mewn llaw gan nad yw'r dyddiad cau tan 31 Mai 1978.

Ymysg yr amrywiaeth o gystadlaethau cynigir gwobr hyd at £40 am nofel fer ar gyfer plant 9–11 oed, a gofynnir am storiau byr a fyddai'n addas i gylchgrawn 'Cymru'r Plant'.

### PYNCIAU

Un arall o'r cystadlaethau yw paratoi llyfryn yn cynnwys sgript a gwaith i blant 10–13 oed yn astudio pynciau fel fferm, afon, y pentref, diwydiant, neu bwnc arall o ddiddordeb cyffredinol a fyddai'n cyfoethogi iaith a lledu gwybodaeth y plant. Cynigir cystadleuaeth arall ar yr un llinellau ar gyfer Dysgwyr, lle disgwylir i'r deunydd fanylu ar batrymau brawddegau a geirfa.

Unwaith eto, mae Gwynedd yn cynnwys y gystadleuaeth sydd wedi profi'n boblogaidd iawn yn y gorffennol, sef unrhyw lyfr, neu gyfuniad o lyfryn a defnyddiau dysgu ar gyfer plant, na ellir eu hanfon i unrhyw un arall o gystadlaethau 1977–78.

Bydd yr Awdurdod Addysg yn gwahodd buddugwyr y cystadlaethau hyn i anfon eu gwaith ymlaen i sylw Panel Llyfrau Darllen y Cyd-Bwyllgor Addysg ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Cyhoeddi.

'Does dim rhaid paratoi gwaith ar gyfer un o'r cystadlaethau hyn yn unig. Mae rhyddid i gyflwyno unrhyw waith arall i ystyriaeth Panel Llyfrau Awdurdod Addysg Gwynedd a fydd yn penderfynu a yw'n addas i'w anfon ymlaen i sylw Panel Llyfrau Darllen y Cyd-Bwyllgor Addysg ai peidio, neu gellir anfon gwaith yn uniongyrchol at Banel y Cyd-Bwyllgor Addysg.

### MANYLION

Mae tair sir arall yn cynnig cystadlaethau ac mae taflen sy'n rhoi manylion o'r holl gystadlaethau ac o'r cynllun ar gael oddi wrth Y Cyfarwyddwr Addysg, Cygnor Sir Gwynedd, Swyddfa Addysg, Heol y Castell, Caernarfon.

## LLYFR BRO 'HIRAETH Y CHWARELWR'

*Mae'n siwr ei bod yn hysbys i ddarllenwyr* Eco'r Wyddfa *erbyn hyn fod 1,000 o gopiau o'r llyfr bro 'Hiraeth y Chwarelwr' (William Williams) wedi eu gwerthu i gyd. Yn wir gwerthwyd y cyfan ymhen pum diwrnod ar ôl dyddiad eu cyhoeddi. Gymaint oedd y galw amdanynt fel ei bod yn anodd iawn mynegi mewn geiriau y fath wefr a gawsom fel pobl ifanc Dinorwig a'r Cylch o weld y cyfan yn cael eu gwerthu. 'Roedd yr ymateb yn anhygoel. Pobl yn dod atom ar y stryd gan ddweud eu bod wedi mwynhau ei ddarllen, tra bod eraill yn gofyn a fyddai'n bosibl i ni gyhoeddi mwy o lyfrau tebyg yn y dyfodol. Yn wir ni chafwyd ymgyrch o ddrws i ddrws i werthu'r llyfr hyd yn oed, ac yr oedd hyn yn galonogol dros ben. Tra yn cyfeirio at y gwerthiant, hoffem ddiolch i'r rhai hynny a fu mor barod eu cydweithrediad i werthu'r llyfr, yn unigolion ac yn siopwyr lleol: Dinorwig; Deiniolen; Brynrefail; Cwm-y-glo a Llanberis.*

*Eisoes 'rydym wedi penderfynu ail-argraffu 1,000 o gopiau gan fod nifer o ddarllenwyr* Eco'r Wyddfa *a rhai o ardaloedd eraill heb dderbyn copi eto. Bydd mwy o wybodaeth am hyn yn y wasg yn ystod y mis nesaf.*

*Ychydig yw'r elw ar ôl talu allan yr holl gostau, ond er hyn mae Mr. William Williams a'r bobl ifanc wedi penderfynu rhoi yr arian tuag at gronfa leol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979. Hyd yma nid yw'r arian i gyd wedi dod i law, ac felly ni allwn ddatgelu'r swm tan y mis nesaf.*

*Glyn Thomas,*
*(Mudiad Adfer – Dinorwig)*

## STEDDFOD DEINIOLEN?

*Syr,*

*Braf oedd gweld nifer o blant Deiniolen a'r cylch yn cael hwyl arni yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Onid llawer gwell fyddai eu gweld ar lwyfan Eisteddfod Gwaun Gynfi? Beth am i rai o arweinwyr ein bywyd cyhoeddus alw cyfarfod er mwyn mynd ati i drefnu bod Eisteddfod i'n plant yn Neiniolen o hyn ymlaen.*

*Yn gywir,*
*Eisteddfodreg*

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

### DYN AR DAN YN CANU

**CLYWAIS sôn am y cantorion canlynol o Eryri yn enwedig o gylch Llanberis. Byddent yn cystadlu â'i gilydd ac yn gwasanaethu'n rhad mewn cyngherddau elusennol yn y cylch a nodwyd. Fel hyn y byddai trigolion Eryri yn eu hadnabod: Jac Bach, Felin Hen; Jac Môr, Penisarwaun; Huw Doctor, Waunfawr; Wil Roberts, Bangor; Padarn Roberts; Jane Ffoulkes; Jonah Owen; Bob Mosus; Bob Peintar; Alice Roberts, Llanberis; Gutyn Eifion a'i briod Mary Catherine o Fethel; Harri Bach, Llanrug; Mary King; Alic a'i chwaer o Ddyffryn Nantlle ac eraill.**

Byddai Alic yn dal ei solo ar hyd ei freichiau ac yn troi i'r dde a'r aswy a slyrs ei fas yn rowlio i foddio calon pawb. Alic oedd y llwyfannwr gorau o'r cwbl.

Yr oedd nifer luosog yn cystadlu ar yr her unawd mewn eisteddfod un tro. Safai Alic y tu allan yn smocio cetyn. Daeth galwad oddi wrth yr ysgrifennydd yn dweud am i Alexander Henderson ddwad i'r llwyfan yn un o bedwar allan o nifer luosog yn y prelim.

Yn ei fraw ceisiodd Alic ddiffodd y cetyn yn sydyn felly. Syrthiodd rhai o'r gwreichion i mewn i dorch godre ei drowsus. Mygai'r trowsus pan oedd Alic yn canu â'i holl egni.Yr oedd y gynulleidfa fawr mewn pangfeydd o chwerthin. Ond ymlaen yr aeth Alic. Canodd yn well nag y gwnaeth erioed. Yr oedd slyrs ei fas yn esgyn gyda'r mwg i fyny i'r to. Cipiodd y wobr gyntaf allan o nifer mawr. Beth arall ellid ddisgwyl gan ddyn 'ar dân' ynte? Dewi Jones, Califfornia gynt o Gwm-y-glo, canwr tenor gwych, adroddodd yr hanes wrth fy nhad.

"Swyn ei fas i Seion fu,
Fel telyn i fawl teulu." G.R.

ROBIN GOCH

Robin Goch oedd ar ben gwal
Yn awdurdod ei ardal:
Rhudd ei gob, tarawodd gân
A byw beraidd bib arian.
O anwyd ac anhunedd
Oerni, i'n tŷ ni mewn hedd
Eirias fu ei groeso . i fad
Ochel, twymo, a chael tamad.
Gorchwyl go dost oedd gwarchod
Rhagddo'r gath, fu'i bath yn bod
Ei hugan glôs rwyg hi'n glau –
Ffei 'winedd ei phawennau!
I lawr eis i'w alw o'r hin – a'i hudo
O'i adwyth i'n cegin,
Gyda moethau geiriau gwin –
"Mae'n bur oer mwyn bererin,
Twt wyt ti, ty'd at y tân
Mi rewi yma rwan.
Am y gu dôn mi gei di
Us, a briwsion, os brysi.
Robin, wyt ddiarebol – am dy goch,
Am dy gân orchestol:
Go dda, wir, agwedd wrol,
Hynaws dy lun, was di lol."


"Ab arabedd", eb Robin
"Na ro goel ar eiriau gwin."

"Er yn swil gwnaet Bob 'rwy'n siwr
Weinidog, neu genhadwr:
Dyro wers dda drwy y wîg
I'r adar angharedig.
Dangos achos dy fron gochi
O glwyfau'r Iôn ar Galfari
Trwy sêl y gwaed gwêl pob gŵr
Dy garedig Greawdwr."

Es nôl hyn i mwthyn mau,
I'w hynt diflannodd yntau.

*Glan Rhyddallt.*


E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS
DEINIOLEN
FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN

# WAUNFAWR

**EGLWYS SANT IOAN** — Bu'r wythnos o flaen y Nadolig yn wythnos brysur iawn i'r aelodau a'r plant; cafwyd drama, "Buchedd Garmon", gan y plant ar y dydd Sul a Charolau. Mrs. Brenda Jones, Mrs. Dando, Miss Powell, Miss C.E. Williams oedd yn gyfrifol am y ddrama a Mrs. Marstor oedd y cyfeilydd.

Cafwyd parti Nadolig yr Ysgol Sul ddydd Llun a Gwasanaeth Carolau plant yr Ysgol Ddyddiol nos Fawrth.

Y mae dyled yr eglwys yn fawr i Mrs. Brenda Jones, sy'n ymddeol o fod yn Athrawes Ysgol Sul ar ôl blynyddoedd o wasanaeth diwyd a chydwybodol.

Trefnodd Mrs. K. Hughes, Llys Meredydd a'i chyfeillesau ddwy yrfa chwist a chafwyd elw o dros £30.

**Y GYMDEITHAS UNDEBOL** — Rhagfyr 19 — noson ar y Nadolig wedi ei threfnu gan Mrs. Gweneirys Jones, a Mr. R.D. Roberts; cymerodd amryw o'r aelodau ran mewn rhaglen ddifyr ac adeiladol a diolchwyd iddynt gan Mrs. K. Wyn Jones.

Ionawr 9 — Sgwrs ar "Etifeddeg" gan Mrs. M. Vaughan Jones. Diolchodd Mr. Idris Owen iddi am sgwrs newydd a diddorol. Llywyddwyd gan Mrs. Rhian Ellis.

**CLWB GWYRFAI** — Aeth y clwb am ei ginio Nadolig i Westy'r Victoria, Llanberis, a chafwyd gwledd i'w chofio a rhaglen adloniadol iawn yng ngofal y gŵr gwadd, Mr. G. Harris o Bwllheli. Diolchodd y Parch. E. Trefor Jones i Mr. Harris am baratoi rhaglen mor ddifyr ac i staff y gwesty am eu derbyniad croesawus i'r clwb; diolchodd hefyd i Mrs. M. Awstin Jones am baratoi'r "Lucky Dip", i Mrs. M.O. Parry Williams am drefnu'r cinio, i bawb a roddodd anrhegion ac i bawb a gymerodd ran.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** — Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr yn Neuadd yr Eglwys o dan lywyddiaeth Mrs. K. Wyn Jones. Talodd y llywydd deyrnged i Miss Parry, Bod Hyfryd, un o sefydlwyr y Gangen hanner can mlynedd yn ôl, — a fu farw ddechrau mis Rhagfyr.

Enillwyd y raffl, a roddwyd gan Mrs. Mottram, gan Mrs. Eldridge ac enillwyd y gystadleuaeth gan y llywydd.

I ddathlu ei hanner canmlwydd y mae'r gangen yn bwriadu rhoi darlun gan arlunydd lleol yn "surgery" Dr. Williams. Os oes rhywun yn awyddus i lun o'i eiddo gael ei ddewis anfoned at yr ysgrifenyddes, Mrs. Blackstone, Cae Trefor cyn Ionawr 21.

**CLWB Y MAMAU** — Cynhaliodd y Clwb ei barti Nadolig yn y Snowdonia Park Hotel a mwynhaodd pawb y disco, y caneuon, a'r carolau ar y diwedd o dan ofal Mrs. Barbara Griffith a Mrs. Rose Anne Hughes.

Gyda gweddill Cronfa'r Jiwbili trefnodd y clwb ddau barti yn Neuadd yr Eglwys ddydd Sadwrn, Ionawr 7 — un i blant o dan oed gadael ysgol yn y prynhawn a disco gyda'r nos i rai hŷn dan ddeunaw oed.

Dymuna'r clwb ddiolch i bawb a'u cefnogodd yn ystod 1977.

**YR YSGOL** — 'Roedd yr Eglwys dan ei sang yng Ngwasanaeth Carolau'r plant ac yr oedd graen ar y darllen yn y ddwy iaith, y canu a'r offerynnau. Diolchodd Canon Glyndwr Williams i'r athrawon am eu llafur a'u hymroddiad a llongyfarchodd hwy a'r plant ar eu gwaith. Gwnaed casgliad wrth y drws ac anfonwyd yr elw i Oxfam.

Y prif enillwyr yn yr Yrfa Chwist oedd — Merched: 1. Mrs. L.M. Griffiths 2. Mrs. Houghton; 3. Mrs. Barbara Griffith; Dynion: 1. Mr. W.R. Jones, 2. Mr. McLennon; 3. Mr. G. Griffiths. Enillwyd y rafflau gan Mr. Huw Evans a Mr. Meirion Jones. Mrs. Walters, Y Post gyflwynodd y gwobrau a Mr. Emlyn Davies oedd yr M.C. Diolchodd y prifathro, Mr. Leslie Jones, ar ei ran ei hun a'r staff, i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd i wneud y noson yn un mor llwyddiannus.

**YR YSGOL FEITHRIN** — Ym Mhwyllgor yr ysgol penderfynwyd cael cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert, nos Fercher, Mawrth 1. Y gost fydd £2.50 a bydd y tocynnau i'w cael gan Mrs. Olwen Williams, Llidiart Wen neu Mrs. C.H. Jones, Bryn Meurig, Mrs. Irene Roberts, Pant Teg; Mrs. Glenys Jones, Rhandir Mwyn a Mrs. Eluned Roberts, Swn y Gwynt.

Fe fydd bws yn cychwyn o'r Post am 7.30. Croeso i bawb.

**YR AELWYD** — Cynhaliwyd disco llwyddiannus iawn, — Disco Dei Tomos — yn Neuadd yr Eglwys nos Fawrth, Ionawr 10. Noson ardderchog, meddai'r aelodau.

Cyn diwedd y mis ceir noson yng ngofal Mr. Meirion Wyn Jones a noson arall yng ngofal Dafydd Iwan.

**MERCHED Y WAWR** — Gwahoddiad cynnes i bawb i ddod i Neuadd yr Eglwys am "De a Chrempog" brynhawn Iau, Chwefror 23. Fe roddir yr elw i Gronfa Leol yr Eisteddfod Genedlaethol.

**LLONGYFARCHIADAU** — Mr. Len Taylor (gynt o 10 Dolerddi) ar raddio yn y Brifysgol Agored; Nicola Roberts, Tŷ Hen a Joanne Weale, Ty'n Twll Bach ar eu llwyddiant yn eu harholiadau cerddorol; ac i'w hathrawes Mrs. Marston, Blaen-y-Nant am eu dysgu ac am lwyddo yn ei harholiad ei hun ar chwarae'r piano.

Er pan ymddangosodd yr *Eco* dwytha ganwyd tair merch yn y pentref : Awen (merch Mr. a Mrs. Alwyn Williams, Garreg Fawr); Sharon (merch Mr. a Mrs. Emrys Owen, Glennydd) a Ceryl (merch Mr. a Mrs. Dafydd Davies, Trefeilian); llongyfarchiadau i'r rhieni i gyd.

Y mae Miss Delyth Williams, Coed Gwydryn wedi dyweddïo, a hefyd, Mr. David J. Owen, Bro Waun; llongyfarchiadau iddynt hwythau.

A llongyfarchiadau a'r dymuniadau gorau i Mr. a Mrs. G. Henderson Jones ar eu priodas (Teresa Pierce gynt).

**A'R DYMUNIADAU GORAU POSIBL** i Mr. Griffith Hughes Roberts, Dolerddi ar ei ymddeoliad. Am dros hanner can mlynedd bu'n ddreifar gofalus ar y bysus gwynion ac yn gymeradwy iawn gan ei deithwyr.

**CYDYMDEIMLWN** — â Mrs. Pritchard Trefeilian (colli mam)a Mrs. K. Roberts Derlwyn (ar farwolaeth ddisyfyd ei gŵr)

**YN YR YSBYTY** — Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mrs. Mair Cotton, Bryn Hyfryd; Mrs. Margaret Jones, Llannerch; Mrs. Grace Griffith, Tanrallt a Mr. Fred Jones, Bryn Golau.

**O'R YSBYTY** — A'r un dymuniad i Dr. Woods, Penybryn; Mr. David Parry, Bro Waun; Mrs. Johnstone, Tŷ Gwyn a Meilir Gwynedd, Bryn Meurig.

**APÊL DAER** — Mae'r rhai sy'n mynd i Wasg Gwynedd, Nant Peris i blygu'r *Eco* ar y nos Iau olaf o bob mis yn dweud fod angen mawr am help i wneud y gwaith o'r Waun; buasent yn hoffi gweld 3 neu 4 o'r Waun yno bob tro i ysgafnhau eu beichiau hwy; ar hyn o bryd mae'r ardaloedd cylchynol yn cario'n beichiau ni.

Cynhelir cyfarfod byr yn Llidiart Wen nos Fercher, Chwefror 1 am 7.30 i drefnu amserlen am y flwyddyn ac i sicrhau fod 3 neu 4 yn mynd i Nant Peris i blygu'r *Eco*. Os byddwch yn methu mynd i'r cyfarfod ond yn barod i helpu fyddwch chi cystal â mynd i weld Mr. Norman Williams, neu ffonio iddo, — Waunfawr 201. Diolch yn fawr.

# NANT PERIS

**TE PARTI** — Brynhawn Gwener y 30 o Ragfyr bu merched Eglwys Peris Sant yn brysur yn gwneud te parti Nadolig i blant yr ardal a chafwyd prynhawn difyr yn festri Rehoboth a'r plant a'u rhieni yn mwynhau y wledd oedd wedi ei pharatoi gan y gwragedd.

**SOSIAL** — Gyda'r nos yr un noson cynhaliwyd Sosial flynyddol Rehoboth a merched y Capel y tro yma yn gyfrifol am ddarparu ar ein cyfer. Cafwyd noson ddiddorol a difyr a'r plant yn gyfrifol am yr adloniant. Cawsom hefyd groesawu ein darpar weinidog, Mr. Marcus W. Robinson, B.D. a chafodd dderbyniad cynnes i'n plith. Edrychwn ymlaen am ei ddyfodiad yma ddechrau mis Gorffennaf a mawr hyderwn y caiff bob cefnogaeth gennym yn ei waith.

**DIOLCH** — yn fawr i'r cyfeillion a ddaeth â'r coed tân i bensiynwyr y Nant. Gallwn eich sicrhau eu bod yn dderbyniol iawn. Ein diolch hefyd i gwmni MBZ am roi lori a gyrrwr i ddod â'r coed i fyny yma.

**NOSON GOFFI** — Ar y 9ed o Ionawr cafwyd Noson Goffi yn y festri i ddechrau'r ymgyrch o gasglu arian at Eisteddfod Caernarfon 1979. Diolch am eich cefnogaeth. 'Roedd y noson dan ofal y dynion a dangoswyd sleidiau gan Mr. Ken Jones, 10 Glanrafon a Ken hefyd ddarparodd y tâp am un o hen gymeriadau y Nant. A gawn eich atgoffa y bydd Noson Mis Chwefror dan ofal y chwiorydd a dangosir ffilmiau gan Mr. Wil Aaron, Cwm Eilir Isaf. Cofiwch ddod i gyd i gefnogi yr ymdrech yma i godi £300 a osodwyd fel nod i ni yn y Nant.

**CANU CAROLAU** — Clywsom fod Rita a Jennifer wedi mynd o gwmpas cyn y Nadolig i ganu Carolau. Trodd y tywydd yn anffafriol a bu raid rhoi'r gorau cyn iddynt ond prin ddechrau ar y gwaith. Diolch iddynt am eu hymdrech a'r ffrwythau a roddwyd ganddynt i drigolion Plas Pen Gwaith. Da iawn chwi eich dwy am fod mor feddylgar.

**REHOBOTH** — Yn ôl yr arfer cynhaliwyd Cyfarfodydd yn Rehoboth yn ystod yr wythnos gyntaf o Ionawr. Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi nos Lun a nos Fawrth a mawr yw ein diolch i'r bobl ifanc a'r plant a gymrodd ran mewn gwasanaethau graenus. Nos Fercher cawsom bregeth gan Mr. Marcus W. Robinson, BD., a fydd yn dechrau ar ei waith fel gweinidog yr ofalaeth yn ystod yr haf yma. Diolch yn fawr iddo am ei bregeth amserol a'i ddull syml a naturiol o draddodi ei neges.

**CROESO** — adref o'r ysbyty i amryw o'r ardalwyr a fu am amser byr mewn ysbyty. Cyfeirio yr wyf at Mrs. H. Thomas, 9 Glanrafon, Mr. Thomas, Gwesty'r Faenol, Miss Glenys Jones, 2 Nant Ffynnon a Mr. Morris Wyn Williams, Terfyn. Mawr hyderwn y bydd i chwi i gyd gael gwellhad llwyr a buan. Da gennym ddeall fod Miss Margaret Roberts, 4 Glanrafon yn gwella yn raddol a'i bod yn awr yn Ysbyty Gallt y Sil. Ein dymuniadau gorau i chwithau a brysiwch adref.

Calon lawen a wna les fel meddyginiaeth, ond meddwl trwm a sych yr esgyrn. Diar.17

Na orchyfger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni. Rhuf. 12

# CLWB RHEDWYR ERYRI

**Er sefydlu y Clwb ym mis Medi 1977, gwelwyd cynnydd gwych yn safon rhedeg ieuenctid y fro. Mae bron 30 o blant yr ardal yn aelodau, gyda 26 o oedolion. Bydd y Clwb yn cyfarfod pob pen wythnos ac mae croeso i fwy ymuno.**

Cynhaliwyd ras arbennig i aelodau'r Clwb ddydd Llun, 2 Ionawr, sef o gylch Llyn Padarn. Oherwydd anawsterau ar lein bach y llyn, fe drefnwyd y ras i gychwyn o'r Ganolfan yn Llanberis, dilyn y ffordd i hen Ysbyty Chwarel Dinorwig, ac yna ymuno â ffordd Fachwen, tros hen bont Penllyn ac yna ar hyd y lôn bost i Lanberis. Pellter o thua 5½ milltir.

Dyma'r pump cyntaf:

1. Malcolm Jones — 33m 55 eil.
2. Huw Jones — 40m 00eil.
3. John Pope — 42m. 10 eil.
4. John T. Williams — 53m. 50 eil.
5. Harvey Lloyd — 53m 55 eil.

Yn nosbarth y plant, gwelwyd Terrence Griffiths yn cwblhau'r cwrs o 4 milltir mewn amser anhygoel. Pleser mawr yw gweld cymaint o ieuenctid y pentref mor frwd i gystadlu ac ymarfer.

Dyma'r canlyniadau:

1. Terrence Griffiths (14 oed) — 41m.02eil.; 2. Garry Ellis (11 oed) — 50m 08eil; 3. (Cyfartal) D. Prydderch (11 oed) 51m 14eiliad a Stephen Owen (14 oed) 15m 14 eiliad; 5. Stephen Ellis (9 oed) 53m 12 eiliad.

Bydd raffl arbennig yn cael ei chynnal ar gyfer y Clwb erbyn y Pasg. Y wobr gyntaf fydd penwythnos i ddau berson yng Ngwesty'r Cliff, Gwbert-on-Sea, Ceredigion neu yn y Metropole, Llandrindod Wells. Hyn trwy garedigrwydd Interchange Hotels, Prydain Fawr a Gwesty'r Fictoria, Llanberis. Bwriedir defnyddio'r arian ar gyfer offer a chrysau rhedeg i'r ieuenctid.

Beth am ymuno — cysylltwch â: H. Davis, Rhiwen, Deiniolen.


E&
E.M.GREEN

SIOP
GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres

*Dewis rhagorol*
*Croeso cartrefol*

# CHWARAEON

## Ei gap o'r diwedd....?


Pymtheg bachgen yn unig sydd yng ngharfan tîm pêl-droed dan bymtheg oed Cymru, goreuon holl chwaraewyr yr wlad, a'n braint ni yn ardal *Eco'r Wyddfa* yw llongyfarch Dafydd Evans, o Ddeiniolen, capten tîm ieuenctid y pentref, ar gael ei ddewis yn un o'r pymtheg.

Bu'r llwybr at y pinacl hwn yn un hir a throellog, a bu'n rhaid iddo brofi ei ddawn ar hyd a lled y wlad dros gyfnod o rai misoedd.

Tîm pêl-droed Ysgol Brynrefail oedd dechrau'r daith, a'i ddewis i gynrychioli Arfon a Gogledd Cymru. Yn sgîl y llwyddiant yma fe'i wahoddwyd yn un o 60 o fechgyn i dreulio wythnos yng Nghaerdydd, i'w hyfforddi gan reolwyr timau Cymru, yn cynnwys Mike Smith. Ym mis Tachwedd oedd hyn, ac ychydig wythnosau'n ddiweddarach fe'i dewiswyd yn un o 45 i brofion pellach ym Merthyr Tudful. Yng Nghaerdydd, yn nechrau'r flwyddyn y bu'r profion olaf, dim ond 24 o fechgyn ar ôl bellach, ac o'r rheini y dewiswyd y pymtheg.

Rhain fydd yn cynrychioli Cymru ym mhob gêm rhyngwladol y tymor hwn, ac mae siawns ardderchog gan bob un ohonynt, am o leiaf un gêm.

Credaf mai Kevin Davies, o Lanberis oedd y diwethaf o'r ardal i wisgo'r crys coch, a dymunwn yr un llwyddiant i Dafydd ag a ddaeth iddo ef.



Ein chwaraewr cydwladol nesaf? Gobeithio ynte?

**TÎM AELWYD LLANBERIS**

**Llanberis 6 Waunfawr 0**

Mae ieuenctid Llanberis a'u golygon unwaith eto ar Gwpan Pantyfedwen yr Urdd, a'u gwrthwynebwyr yn y rownd gyntaf eleni oedd Aelwyd y Waunfawr. Ar gae Llanberis y bu'r frwydr y Sadwrn diwethaf, ond ofnaf na fu'r Waun yn fawr o fwgan iddynt Chwe gôl i ddim oedd mesur eu rhagoriaeth, a John Trevor Williams yn sgorio deirgwaith, Dafydd Evans (Deiniolen) a Bryn Hughes (Bethel) yn sgorio dwy arall a golgeidwad y Waun yn penio'r chweched i'w gôl ei hun.

## Cwpan i Fechgyn Deiniolen

Bu'n arferiad ers rhai blynyddoedd bellach i gysylltu llwyddiant ar y cae pêl-droed â phentrefi Llanberis a Llanrug, ond mae tîm dan 15 oed Deiniolen yn brysur brofi nad hawlfraint y rhain yw ennill cwpanau.

Dyma'r tîm fu'n fuddugol ar gae Caernarfon Utd. yn rownd derfynol Cwpan Bernard Wardle ar ddydd Gŵyl Sant Steffan, gan guro Ysgubor Goch o ddwy gôl i ddim. Kelvin Lewis, oedd sgoriwr y ddwy, ond deallaf mai chwarae da fel tîm oedd yn gyfrifol fwyaf am eu llwyddiant.



*Rhes ôl o'r chwith i'r dde: Gwilym Williams (trysorydd); Bryn Jones, Gareth Owen, Euryn Owen, Kelvin Lewis, David Brailsford, Gwynfor Williams, Llion Evans, Karl Williams, Eifion Jones (hyfforddwr). Rhes flaen: (chwith i'r dde): Malcolm Allen, Barry Jones, Dilwyn Williams, David Evans (capten), Elfed Williams (rheolwr), Kevin Jones, Myrddin Morris a Barry Williams.*

## Rygbi Ysgol Brynrefail

**Mae'r hogia wedi chwarae dwy gêm bellach, profiad hollol newydd iddynt, ac er mai colli fu eu hanes 'rwy'n sicr, ar dystiolaeth eu brwdfrydedd a'u parodrwydd i ddysgu, na fydd yn rhaid disgwyl yn rhy hir am y fuddugoliaeth gyntaf.**

**Ysgol Botwnnog oedd yr ymwelwyr cyntaf, a chafwyd perfformiad brwdfrydig gan y tîm gyda David Owen, blaenwr,yn sgorio cais cynta'r ysgol ers dros ugain mlynedd. 5–15 oedd y sgôr terfynol. Gyrrodd Ysgol Dyffryn Ogwen dîm cryfach o lawer ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, a gwelwyd gêm ardderchog. Gyda mwy o brofiad gallasai'r hogia fod wedi ennill yn hawdd, sgorwyd cais da gan Tony Jones a llwyddodd Owain Griffiths i'w drosi. Y sgôr terfynol oedd 6–14.**



*Tony Jones, Capten tîm yr Ysgol yn anelu i gicio'r bêl. Gwelir aelodau eraill o'r tîm yn barod i'w gefnogi.*

### LLANRUG

Ionawr 21

Cwpan J.W.Lees (3edd rownd)

**BRYNFORD 1 LLANRUG 3**

Tywydd oer ac olion y storm eira yn gyndyn iawn o ddiflannu o Brynford. Y reffari, ar y llaw arall, wedi diflannu, ac ar ôl disgwyl tan dri o'r gloch, penderfynu chwarae'r gêm, a'r ddau dîm yn cytuno i Howyn Jones o Lanrug fod yn reffari. Yntau'n gwneud gwaith da iawn mewn sefyllfa mor annymunol, a chwarae teg i'r ddau dîm, fe chwaraewyd y gêm mewn ysbryd da iawn ac ni fu nemor ddim dadlau â dyfarniadau'r reff!!

Dim sgôr yn yr hanner cyntaf er i Lanrug gael dau neu dri siawns da i sgorio. Gwynt cryf ar draws cae anwastad yn ei gwneud yn anodd i reoli'r bêl. Yn yr ail hanner, Llanrug oedd y meistri a buan yr aethant ar y blaen. Cic gornel gan Hefin Jones yn cael ei phenio i'r rhwyd gan Dic Owen. Yn fuan wedyn, Peter Roberts yn rhoi Llanrug ddwy gôl ar y blaen gyda chic isel i gornel y rhwyd. Len Padmore sgoriodd y drydedd wrth geisio croesi'r bêl – y gwynt yn gafael ynddi ac yn ei gollwng yn daclus tu cefn i'r golgeidwad. Yn hwyr yn y gêm, sgoriodd Brynford eu gol.

## Pêl-droed

### LLANBERIS

**Rhos Utd. 0 Llanberis 1**

Cwpan Gyfryngol Gogledd Cymru, neu gwpan J.W. Lees oedd yn mynnu sylw Llanberis hwythau dros y penwythnos. Ond bu'n rhaid iddynt hwy wynebu tim o Gynghrair Gyntaf Gogledd Cymru.

Mae'n wir nad dyma dîm cryfa'r Gynghrair, ond ar dystiolaeth y gêm yma 'does fawr o wahaniaeth rhwng timau gorau Arfon a rhai canol y gynghrair gyntaf.

'Roedd dau chwaraewr yn nhîm y Rhos a phrofiad ganddynt yn nhîm cyntaf Bangor, ond ar y cae trwm, cryfder a brwdfrydedd tîm Llanberis fu'n gyfrwng i benderfyniadau'r gêm. Iwan Evans, â'i redeg di-flino yn gorfodi i un o amddiffynwyr y Rhos afael yn y bêl, a Dick Parry yn gwneud y canlyniad yn hollol saff o'r smotyn gwyn.

**GEMAU MIS CHWEFROR**

**Chwefror 11eg yn Llanrug – Abergele (ail yn y Gynghrair Gyntaf, Clwyd) yn cystadlu am le yn rownd gyn- derfynol Cwpan Iau Gogledd Cymru. Cofiwch ddod yno i gefnogi'r tîm lleol gan na fu Llanrug yn y rownd gyn-derfynol ers 30 o flynyddoedd.**

**CYNGHRAIR CAERNARFON A'R CYLCH**

| | ch | e | cyf | c | obl | yn e |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanrug | 16 | 14 | 2 | 0 | 64 | 14 |
| | | | | | Pwyntiau = 30 | |
| Llanberis | 15 | 12 | 3 | 0 | 62 | 19 |
| | | | | | Pwyntiau = 27 | |